

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD



Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 20 Ionawr 2014 at 10.00 am
Bodlondeb, Conwy

RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth a natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 6)

Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

5. **Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (llafar)**

6. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

a) Lefel Arfaethedig y Praesept Plismona (Tudalennau 7 - 18)

b) Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru - Cynllun Ariannol Tymor Canolig - 2014 -15 hyd 2017-18 (Tudalennau 19 - 38)

c) Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymrub - Drafft Ymgynghorol – Amcanion Heddlu a Throsedd Diwygiedig (Tudalennau 39 - 49)

d) Gweithdy i Aelodau'r Panel (llafar)

7. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Dydd Llun, 17 Mawrth 2014 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd)
Cyng Gethin Williams (Is-Gadeirydd)

Cyng Amanda Bragg
Cyng Philip C. Evans Y.H.
Cyng Julie Fallon
Cyng William T. Hughes
Cyng Charles Jones
Cyng Colin Powell
Cyng Ian Roberts
Cyng Bill Tasker

Patricia Astbury
Timothy Rhodes

Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ynys Mon
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Sir Ddinbych

Aelod Annibynnol Cyfetholedig
Aelod Annibynnol Cyfetholedig

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 16 Rhagfyr 2013, am 2.00 pm
Bodlonddeb, Conwy

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Pat Astbury, Amanda Bragg,
Philip C. Evans Y.H., William T Hughes, Colin Powell,
Ian Roberts a Bill Tasker

Aelod Cyfetholedig ~~Pat Astbury~~ a Tim Rhodes

Swyddogion: Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd,
Rheoleiddio a Chefnogaeth)), Richard Jarvis (Cyfreithiwr),
Jane Angharad Jones (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a
Ffion Wynne (Cyfieithydd)

82. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Julie Fallon, Charles Jones, Gethin Williams a Timothy Rhodes (Aelod Cyfetholedig Annibynnol)

83. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Datganodd y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H., Pat Astbury (Aelod Cyfetholedig) a'r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) gysylltiad personol, nad yw'n rhagfarnu yng nghofnod 5 y Rhaglen – Gwrandawriad Cadarnhau ar gyfer y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd oherwydd eu bod yn adnabod yr ymgeisydd mewn sefyllfa broffesiynol yn unig.

84. MATERION BRYS

Dim.

85. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 11 Tachwedd 2013 i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD -

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2013 fel cofnod cywir.

86. GWRANDAWIAD CADARNHAU AR GYFER DIRPRWY GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD

Daeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ynghyd i ystyried enwebiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer swydd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Roedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn cynnal gwrandawriad cyhoeddus ar gyfer yr uwch benodiad hwn, lle gofynnwyd i'r ymgeisydd ymddangos at ddibenion ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r penodiad.

Darparodd y Comisiynydd ychydig o gefndir ynglŷn â'r broses benodi i'r Panel gan adrodd bod 11 o geisiadau wedi'u derbyn, a chyfwelwyd 3 o'r ymgeiswyr. Cytunodd y Panel Cyfweld yn unfrydol mai Mr Sandham fyddai'r ymgeisydd addas gan y byddai ei hanes gyrfael yn adlewyrchu ac ategu at gefndir cyfreithiol y Comisiynydd.

O ganlyniad, gofynnwyd i Banel yr Heddlu a Throsedd ystyried uwch benodiad Julian Sandham fel Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru.

Cyfarchodd Mr Sandham Banel yr Heddlu a Throsedd a darparu diweddariad ynglŷn â'i waith hyd yn hyn, gan gynnwys:-

- Presenoldeb mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, cyfarfodydd a seminarau.
- Ymgysylltu â'r Gymuned
- Datblygu craffu. Meysydd gweithgarwch yn cynnwys lladrad o gartrefi pobl, cofnodi troseddau a datblygu canllawiau drafft yn ymwneud â Safonau a Gonestrwydd Proffesiynol. Mewn ymateb, hysbysodd y Comisiynydd y Panel bod anomaledau a chywirdeb cofnodi troseddau wedi'u hadrodd i'r Swyddfa Gartref.
- Datblygu canllawiau drafft o ran Safonau a Gonestrwydd Proffesiynol.
- Adolygu gweithgarwch gwaith yn swyddfa'r Comisiynydd.
- Darparu diweddariadau dyddiol i'r Comisiynydd.

Yn ogystal â hyn, ymatebodd Mr Sandham i gwestiynau a godwyd gan Aelodau'r Panel.

Yn dilyn y gwrandawriad, cadarnhaodd y Panel gynnig i eithrio'r wasg a'r cyhoedd er mwyn trafod yn breifat.

PENDERFYNWYD:-

Argymhell i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y dylid penodi Julian Sandham fel Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Roedd y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H., Pat Astbury (Aelod Cyfetholedig) a'r Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) wedi datgan cysylltiad personol, nad oedd yn rhagfarnu yn yr eitem uchod.

Dymunodd y Comisiynydd a'r Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r Panel a'r Swyddogion.

87. CYNLLUN LWFANSAU

Gofynnwyd i Banel yr Heddlu a Throsedd ystyried a ddylid gwneud darpariaeth yn y Cynllun Lwfansau ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd a theithio i leoliad y cyfarfod ac oddi yno.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) y Panel bod Panel Tâl Annibynnol Cymru (IRPW) wedi cyhoeddi eu Hadroddiad Blynyddol yn ddiweddar ac er nad oedd gan IRPW unrhyw awdurdodaeth dros Banel yr Heddlu a Throsedd, roedd Cynllun Lwfansau'r Panel yn seiliedig ar daliadau'r IRPW i aelodau cyfetholedig.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Rôl y Panel a phwysigrwydd craffu effeithiol.
- Goblygiadau o ran adnoddau
- Amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno.
- Lleoliad y cyfarfodydd- roedd y Panel o'r farn y dylid cynnal y cyfarfodydd yng Nghonwy gan mai Conwy oedd yr Awdurdod Cynnal.
- Taliadau arfaethedig a risgiau yn ymwneud â mabwysiadu penderfyniadau diwygiedig IRPW – Byddai'r aelodau mewn risg o fynd tu hwnt i'r uchafswm y gellir ei dalu mewn blwyddyn.
- Cyflwynwyd sylwadau i'r Swyddfa Gartref, ynglŷn â nifer o faterion, ond hyd yn hyn ni dderbyniwyd unrhyw ateb penodol.
- Anghysondebau yng Nghymru a Lloegr.
- Ystyriwyd amlygu anomaledau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru fel opsiwn.

Gofynnwyd am eglurhad o ran penderfyniadau diwygiedig IRPW, cyn i Banel yr Heddlu a Throsedd gyflwyno sylwadau o ran y Cynllun Lwfansau.

PENDERFYNWYD:-

Gohirio ystyried diwygio'r Cynllun Lwfansau, yn unol â'r penderfyniadau diwygiedig gan Banel Tâl Annibynnol Cymru (IRPW), wrth aros am fwy o wybodaeth.

88. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

PENDERFYNWYD:-

Bod y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal Ddydd Llun, 20 Ionawr 2014 am 10.00am yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb.

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.50 pm)

Lefel Arfaethedig y Praesept Plismona

Cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu Winston Roddick

Un o'r prif benderfyniadau yr wyf yn eu gwneud bob blwyddyn ydi penderfynu ar lefel arfaethedig y praesept plismona a'i gyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd. Y penderfyniad hwn fydd yn pennu faint o adnoddau fydd gan y Prif Gwnstabl i ddarparu'r gwasanaeth plismona yng Ngogledd Cymru ac i gyflawni amcanion strategol fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Er mwyn galluogi'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon ac i leihau trosedd, cynigaf fod yr elfen plismona o'r Treth Cyngor ar gyfer 2014/15 yn cael ei chynnyddu 2% sydd gyfwerth â chynnydd o £4.50 y flwyddyn ar annedd Band D neu 9 ceiniog yr wythnos.

Byddai'r cynnydd arfaethedig hwn yn sicrhau fod y gyllideb yn gynaliadwy er gwaethaf toriadau pellach i'r grant plismona yng Ngogledd Cymru. Yn dilyn trafodaethau manwl gyda'r Prif Gwnstabl penderfynodd y byddai'r gyllideb arfaethedig hon ar gyfer 2014/15 yn ddigon er mwyn ei alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn rwyf wedi ystyried nifer o ffactorau.

Yn gyntaf lefel y grantiau canolog a glustnodwyd ar gyfer Gogledd Cymru. Daw 55% o incwm Heddlu Gogledd Cymru o grantiau canolog a geir gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru. Mae cyllideb y Swyddfa Gartref ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi'i thorri 3.3%, ac mae'r toriad hwn wedi'i basio ymlaen yn llawn i'r ardaloedd plismona lleol. Hefyd, mae'r Swyddfa Gartref wedi cymryd arian o'r gyllideb i dalu am nifer o fentrau cenedlaethol megis y Gronfa Arloesi ac i ariannu Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Golyga hyn bod nawdd canolog pob Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Throsedd wedi'i dorri 4.8%. Mae hyn gyfwerth â dros £3.5miliwn i Gogledd Cymru yn unig.

Yn ail, mae costau'n cynyddu. Yn benodol, mae pris tanwydd yn cynyddu llawer mwy na chwyddiant. Mae cyflogau yn y sector cyhoeddus yn cynyddu ar raddfa is, ond gan mai cyflogau ydi 80% o'n gwariant, mae hyd yn oed codiad cyflog o 1% yn swm mawr o arian.

Yn drydydd, lefel ein cronfeydd wrth gefn. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Prif Gwnstabl wedi gorfod gwneud arbedion sylweddol. Torrwyd y cyllidebau a oedd yn gysylltiedig â'r arbedion hyn cyn gynted ag yr oedd yn sicr y byddai'r newidiadau angenrheidiol yn gallu cael eu gweithredu. Fodd bynnag, diolch i effeithiolrwydd ac agwedd rhagweithiol y Prif Gwnstabl, gwirededwyd nifer o'r arbedion hyn yn gynharach na'r disgwyl a arweiniodd at danwariant mewn rhai achosion yn y blynyddoedd diwethaf.

Yn olaf, rhaid oedd ystyried beth fyddai'n gynnydd rhesymol i'r dreth cyngor o ystyried popeth a nodwyd uchod. Mae'r cynnydd arfaethedig o 2% yn dal i olygu y byddai'n rhaid i'r Prif Gwnstabl wynebu sawl her. Er bod hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r boblogaeth leol gyfrannu mwy tuag at gost plismona'r ardal mae hyn dal i gynrychioli toriad net yn yr adnoddau o £4.3miliwn. Disgwylir y bydd y nawdd gan lywodraeth ganolog yn parhau i ostwng yn y tymor canolig, ac mae'n dod yn anoddach i adnabod meysydd ble gall arbedion gael eu gwneud sydd ddim yn cael effaith negyddol ar wasanaethau rheng flaen. Er y gallwn yn y tymor byr ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn i gefnogi gwariant, ac er eu bod yn iach ar hyn o bryd, maent yn gyfyngedig ac felly mae'n rhaid i'r arian gael ei ddefnyddio'n ddoeth er mwyn sicrhau hyfywdra parhaus Heddlu Gogledd Cymru.

Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Teitl:	Y Gyllideb a'r Praesept 2014-15 i 2017-18
Cyfarfod:	Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 20 Ionawr 2014
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r sefyllfa ariannol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer treth cyngor a phraesept 2013-14.

2. Argymhellion

- 2.1 Bod praesept 2014-15 yn seiliedig ar gynyddu Treth Cyngor annedd band D 2% (cynnydd o £4.50 y flwyddyn, 9 ceiniog yr wythnos) i £227.61, sy'n gyfwerth â chynyddu'r praesept 3.19%.
- 2.2 Mai cyfanswm y gyllideb yw £141.204miliwn; gostyngiad o -1.31%.
- 2.3 Bod arbedion gwerth £4.325miliwn wedi'u hadnabod ar gyfer 2014-15.
- 2.4 Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu cynnydd arfaethedig o 2% yn y Treth Cyngor ar gyfer pob blwyddyn hyd at 2017-18 yn seiliedig ar ostyngiad posibl o 3.2% yn y grant plismona ar gyfer 2015-16 a 3% yn y ddwy flynedd i ddilyn.
- 2.5 Crynodeb o Gyllideb 2014-15

	£miliwn	
Cyllideb 2013-14	<u>143.083</u>	
(Wedi'i addasu i gynnwys y Gronfa Diogelwch Cymunedol)		
Chwyddiant	2.446	+1.7%

Cyllideb Ddiwygiedig 2014-15 **145.529**

Amcangyfrif o'r arian fydd ar gael yn 2014-15

Grantiau'r Llywodraeth (55% o nawdd)	77.102	-4.8%
Treth y Cyngor	£227.61	+2.0%
wedi'i luosi gyda Sylfaen y Dreth	281,633	+1.1%
Praesept (45% o nawdd)	64.102	+3.19%

Cyllideb 2014-15	<u>141.204</u>	-1.31%
Angen gwneud toriadau o	4.325	

3. Eitemau Statudol

3.1 Ansawdd gwybodaeth

3.1.1 Mae'n rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid (PSC), yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003 (A5), wneud sylwadau ar briodoldeb yr wybodaeth a ddefnyddir fel sail i benderfyniadau cyllidol. Mae'r PSC wedi nodi bod y ffigyrau yn yr adroddiadau amrywiol yn ganlyniad gweithdrefnau sydd wedi'u gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Mae'r systemau hyn yn cael eu harchwilio yn fewnol ac yn allanol ac nid yw'r archwiliad allanol erioed wedi cyflwyno unrhyw amod. Felly mae'r wybodaeth yn addas i'r pwrpas.

3.1.2 Mae'r un Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r PSC wneud sylwadau ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn sydd i'w cynnwys yn y gyllideb. Mae'r PSC wedi cymeradwyo y bydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn parhau i fod yn ddigonol ar gyfer anghenion gweithredol dydd i ddydd yr Heddlu.

4. Cefndir

4.1 Mi wnaeth Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gwreiddiol y Llywodraeth (ACW2010) ymdrin â'r cyfnod 2011 i 2015; mi wnaeth yr Adolygiad amlygu nifer o doriadau sylweddol y byddai rhaid eu gwneud ar draws y sector cyhoeddus. Yn wreiddiol nodwyd y byddai Grantiau Llywodraeth yr Heddlu yn cael eu torri 12% dros y 4 blynedd. **Erbyn hyn mae wedi'i gadarnhau y bydd -18.2% yn llai o arian ar gael yn y cyfnod hwn** (-5.1% yn 2011-12, -6.7% yn 2012-13, -1.6% yn 2013-14 a -4.8% yn 2014-15).

4.2 Mi wnaeth Awdurdod yr Heddlu gynyddu'r Treth Cyngor 4% yn 2011-12 a 2.5% yn 2012-13. Cynyddwyd y Treth Cyngor 4% yn 2013-14 a gwnaethpwyd gwerth £4.634miliwn o doriadau. Ail-fuddsoddwyd £1.8miliwn o'r toriadau hyn mewn recriwtio 51 o Swyddogion Heddlu ychwanegol. Ar adeg gosod cyllideb 2013-14 rhagdybiwyd y byddai'r Grantiau yn cael eu torri 3% a'r Dreth Cyngor yn cael ei chynyddu 4%. Mae'r tabl isod yn nodi'r toriadau sydd wedi'u gwneud hyd yma a'r toriadau arfaethedig ar adeg gosod cyllideb 2013-14.

Blwyddyn	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16
	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn
Y toriadau sydd angen eu gwneud	4.678	6.016	4.634	2.552	2.273

4.3 Bydd toriadau gwerth £15.058miliwn wedi'u gwneud dros dair blynedd gyntaf cyfnod ACW2010, a bydd £1.8miliwn wedi'i ailfuddsoddi mewn swyddi rheng flaen. Yn ystod 2013-14 mi wnaeth Canghellor y Trysorlys gynnal Adolygiad o Wariant (AW) 'bychan' a oedd yn edrych ar 2014-15 a 2015-16. Bydd yr adroddiad hwn a'r Cynllun Ariannol

Tymor Canolig (CATC2014) yn canolbwyntio ar y 4 blynedd 2014-15 i 2017-18. Yn seiliedig ar y rhagamcaniadau diwygiedig (fel y'i nodwyd yn 2.4) bydd angen gwneud toriadau ychwanegol gwerth £17.103miliwn dros y pedair blynedd nesaf, cyfanswm o £32miliwn dros saith mlynedd, neu ostyngiad o 22% o sylfaen 2010-11, er gwaethaf cynyddiadau yn y Treth Cyngor.

5. Yr Amgylchedd Cynllunio

- 5.1 Mae'r [Cynllun Ariannol Tymor Canolig](#) (CATC) atodedig yn cynnwys gwybodaeth am y cynlluniau cynllunio. Mae'n cynnwys ffigyrau'r flwyddyn flaenorol a rhagamcaniadau o ran incwm a gwariant refeniw, a chynlluniau ar gyfer y cyfalaf a'r cronfeydd wrth gefn.
- 5.2 Nid yw'r Llywodraeth wedi rhoi swm o arian dros dro ar gyfer 2014-15 fel rhan o setliad 2013-14. Yn dilyn Adolygiad o Wariant y Canghellor ym mis Mehefin 2013 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddai cyllideb yr Heddlu yn cael ei thorri 3.3% ac ar y pryd tybiwyd mai hwn oedd y toriad y byddai'n cael ei basio ymlaen i'r ardaloedd plismona.
- 5.3 Yn Natganiad yr Hydref yn 2013 (5 Rhagfyr 2013) mi gyhoeddodd y Canghellor y byddai cyllideb y Swyddfa Gartref yn cael ei thorri ymhellach - 1.1% yn 2014-15 a 2015-16.
- 5.4 Ar 18 Rhagfyr 2013 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona faint o arian fyddai pob ardal Blismona yn ei gael. Prif bwyntiau'r cyhoeddiad oedd:
 - 5.4.1 Gostyngiad o 4.8% i bob ardal Blismona, hynny yw:
 - y toriad o 3.3% a gyhoeddwyd yn flaenorol a
 - thoriadau ychwanegol er mwyn ariannu gwariant canolog (sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 5.6).
 - 5.4.2 Ni fydd y toriad ychwanegol o 1.1% a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref yn cael ei basio ymlaen yn 2014-15 (er efallai yr ail-edrychir ar hyn yn y dyfodol).
 - 5.4.3 Mae'r cyhoeddiad ar gyllideb 2015-16 wedi'i ohirio am y tro.
- 5.5 Mae Grant Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd (a oedd yn Grant penodol yn 2013-14) wedi'i symud i'r Grant Cyffredinol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol. Mae ffigwr cymharol y grant ar gyfer 2013-14 wedi'i newid er mwyn iddo adlewyrchu'r newid hwn.
- 5.6 £77.102miliwn fydd yr Heddlu yn ei gael gan y Llywodraeth yn 2014-15 sy'n ostyngiad o £3.857miliwn o ffigwr 2013-14 a oedd yn £80.959miliwn. Mae'r toriad o 3.3% i gyllideb plismona y Swyddfa Gartref gyfwerth â £2.671miliwn, ac mae'r £1.186miliwn arall wedi'i neilltuo ar gyfer ariannu mentrau canolog y Swyddfa Gartref. Dyma restr o'r mentrau hyn a chyfanswm yr arian sydd wedi'i ddynodi ar eu cyfer:

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu	£18miliwn
Y Cronfa Arloesi	£50miliwn
Canolfan Cydlyn Cenedlaethol yr Heddlu	£2miliwn
Y Coleg Plismona	£3miliwn

Heddlu Dinas Llundain
Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi

£2miliwn
£9miliwn

- 5.7 Ni wnaed cyhoeddiad blaenorol ynghylch y mwyafrif o'r toriadau hyn ac felly nid oedd yn bosib eu cynnwys yn y rhagdybiaethau cynllunio blaenorol. Gall trosglwyddo arian o'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (ac felly'r heddluoedd) i fentrau canolog y Swyddfa Gartref, a diffyg gwybodaeth amserol, achosi risg difrifol i gynlluniau a rhagdybiaethau ariannol y dyfodol pe bai hyn yn digwydd eto. Hefyd, mewn rhai achosion, nid yw'n glir o gwbl sut bydd cymunedau Gogledd Cymru yn cael budd o'r arian hwn.
- 5.8 Nid oes cyhoeddiad wedi'i wneud ar gyfanswm yr arian fydd ar gael o 2015-16 ymlaen, ond mae'r Swyddfa Gartref eisoes wedi cyhoeddi y bydd y gyllideb yn cael ei thorri (drwy'r Grant Llwr, sydd wedi golygu bod cyllideb pob Comisiynydd wedi'i thorri 4.8% yn 2014-15) mewn ffordd debyg yn 2015-16, cyn i Fformiwlâ Ariannu'r Heddlu gael ei hadolygu. Yn seiliedig ar y ffigyrau sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd yr ymgais i arbed arian yn parhau ar ôl 2016-17, a rhagdybir y bydd y grant yn cael ei dorri 3.2% yn 2016-17 a 3% yn y blynyddoedd i ddilyn.

6. Cyllideb 2014-15

- 6.1 Yn dilyn Adolygiad o Wariant 'bychan' y Canghellor ym mis Mehefin 2013 rhagwelwyd y byddai Grantiau'r Llywodraeth yn cael eu torri 3.3%. Fodd bynnag roedd rhaid i'r Swyddfa Gartref wneud toriadau ychwanegol o 1.5% i'r hyn a restrwyd ym mharagraff 5.6, sydd gyfwerth â £1.186miliwn. Pe bai'r Treth Cyngor yn cael ei gynyddu 2% byddai angen gwneud toriadau gwerth £4.325miliwn, ac mae'r rhain wedi'u hadnabod a'u rhestru isod:

	<u>£miliwn</u>
Cyllideb 2013-14 (wedi'i haddasu i gynnwys Grant CDC)	<u>143.083</u>
Chwyddiant gogyfer â thâl	1.455
Chwyddiant heb fod yn dâl	0.577
Gwariant a ariennir gan grant	0.424
Y Gofyniad Cyllidebol Diwygiedig	<u>145.529</u>
Amcangyfrif o'r arian fydd ar gael yn 2014-15	<u>141.204</u>
Y toriadau sydd angen eu gwneud	<u>4.325</u>
<u>Toriadau a adnabuwyd y gellir eu gwneud yn 2014-15:</u>	<u>£miliwn</u>
Prosiect 2011+ ac adolygiadau eraill	0.666
Lwfansau, goramser a throsiant staff	1.324
Costau pensiwn	0.400
Rhaglen Adnewyddu TG	0.321
Drylliau Tanio	0.400
Gwaith Fforensig	0.150
Incwm	0.540
Grantiau	0.414
Chwyddiant	0.110
<u>Cyfanswm</u>	<u>4.325</u>

- 6.2 Mae adnabod arbedion, ar yr un pryd â chynnal lefelau'r Gwasanaeth yn dod yn fwyfwy anodd. Fe allwn fantoli Cyllideb 2014-15 ar y lefel y dangosir uchod, ond bydd angen parhau i adolygu'r balans rhwng y toriadau a'r praecept ac mae'n bosib y bydd angen cynyddu'r Treth Cyngor fwy na 2% yn y blynyddoedd i ddod. Erbyn diwedd 2018 rhagwelir y bydd bron i chwarter y gyllideb (22%) wedi'i thorri ers 2010, er gwaethaf cynyddiadau yn y treth cyngor.
- 6.3 Gosodwyd niferoedd Swyddogion Heddlu (sef y nifer o Swyddogion Heddlu sy'n cael eu hariannu) ar gyfer 2013-14 ar 1468. Y cynllun gwreiddiol oedd cael 1417 o swyddogion, ond cafwyd £1.8miliwn yn ychwanegol i ariannu 51 o swyddi rheng flaen newydd. Niferoedd Swyddogion Heddlu ar gyfer 2014-15 fydd 1438 oherwydd bydd y Swyddfa Gartref yn ariannu llai o swyddi, bydd eraill yn eu cael eu sifileiddio a'u secondio a bydd Prosiect 2011+ yn y camau olaf. Dyma grynodedb o'r symudiadau hyn:

Niferoedd yn 2013-14	1468
Sifileiddio swyddi	-7
Swyddi a ariennir gan y Swyddfa Gartref	-22
Prosiectau a Secondiadau	-1
Niferoedd Swyddogion Heddlu yn 2014-15	1438

- 6.4 Mae gan yr Heddlu Gynllun Recriwtio er mwyn sicrhau bod y swyddi yn cael eu llenwi gan Swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n llawn, ac felly yn ystod y flwyddyn bydd niferoedd Swyddogion Heddlu yn uwch na 1438 oherwydd bydd gan yr Heddlu swyddogion ar brawf sydd yn y broses o gael eu hyfforddi.

7. Risg

- 7.1 Wrth osod cyllideb 2014-15 mae lefel yr ansicrwydd wedi bod yn uchel oherwydd ni chawsom wybod lefel y grant gan y Swyddfa Gartref tan 18 Rhagfyr 2013. Gan nad yw'r ffigyrau ar gyfer y grant wedi'u cyhoeddi ar gyfer y blynyddoedd i ddod mae lefel yr ansicrwydd ar gyfer 2015-16 ymlaen hefyd yn uchel.
- 7.2 Mae'r cynlluniau ar gyfer yr arbedion yn 2013-14 mewn lle ac maent yn cael eu gweithredu. Nid yw'r arbedion arfaethedig ar gyfer 2014-15 wedi'u profi eto ond mae'r Prif Gwnstabl wedi'u hystyried ac mae'n hyderus y bydd modd eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae'r toriadau ar gyfer 2014-15 ac ar ôl hynny eto i'w hadnabod a'u gweithredu. Nid yw'r holl arbedion dan reolaeth yr Heddlu, er enghraifft bydd yr arbedion y gellir eu gwneud o ran Cydweithio yn ddibynnol ar heddluoedd eraill a bydd y costau a'r arbedion o ran tâl yn ddibynnol ar y cytundebau cenedlaethol terfynol.
- 7.3 Mae'r amcangyfrifon o ran y toriadau fydd angen eu gwneud yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd y Treth Cyngor yn cynyddu 2% bob blwyddyn, o gymharu â'r cynllun blaenorol i'w gynyddu 4%. O ystyried yr ansicrwydd ariannol a gweithredol sydd ar y gorwel, mae'n bosib y bydd y rhagdybiaeth hon yn newid. Pe bai'n gostwng yna byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu y byddai rhaid gwneud gwerth £0.628miliwn o doriadau ychwanegol yng nghyllideb 2014-15. I'r gwrthwyneb, byddai cynnydd o 1% yn golygu bod £0.628miliwn yn fwy o arian ar gael i'w wario.

- 7.4 Fel y nodwyd ym mharagraff 5.6, mae'r Swyddfa Gartref wedi gorfod cymryd rhan o'r arian a ddyrannwyd i ardaloedd Plismona yn 2014-15 i ariannu unedau a mentrau cenedlaethol. Bydd rhaid cymryd llawer iawn mwy o arian yn y ddwy flynedd nesaf i ariannu Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Pe bai unrhyw fenter newydd arall yn cael ei datblygu yna efallai y bydd rhaid cymryd rhagor o arian eto.
- 7.5 Nid yw Fformiwla Ariannu'r Heddlu wedi'i gweithredu'n llwyr oherwydd ystyriwyd bod y symudiadau mewn ariannu yn rhy fawr. Mae'r addasiad wedi'i wneud drwy'r Grant Llawr; fe gyhoeddwyd y byddai'r Grant Llawr yn parhau yn 2015-16. Bydd y Swyddfa Gartref yn cynnal adolygiad llawn o Fformiwla Ariannu'r Heddlu. Mae'n debyg y bydd yr adolygiad hwn o fantais i'r heddluoedd mawr ond gall olygu y bydd Gogledd Cymru yn cael llawer llai o arian.
- 7.6 Gall rhagor o doriadau gael eu cyhoeddi yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant nesaf. Mae pob toriad ychwanegol o 1% i'r Grant Cyffredinol cyfwerth â gostyngiad ariannol o dros £0.771miliwn.
- 7.7 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar gyflogau, gall newidiadau bychan i'r cynnydd arfaethedig mewn tâl, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol gael effaith anghymesur ar y gyllideb.
- 7.8 Mae'r tabl isod yn tanlinellu sensitifrwyd y prif ragdybiaethau:

Sensitifrwyd - y prif newidynnau

	£miliwn
Gostyngiad o 1% yng nghynnydd y Treth Cyngor	0.628
Gostyngiad o 1% i'r grant	0.771
Cynnydd o 1% i dâl	1.116
Cynnydd o 1% i chwyddiant	0.300

8. Gwydnwch

- 8.1 Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i sicrhau ei fod yn cadw digon o arian wrth gefn i reoli risgiau. Yn ychwanegol at y risgiau nawdd a rhagamcanu y nodwyd uchod, mae angen i'r Comisiynydd ystyried y risg i wariant (gwario mwy na sydd yn y gyllideb) a digwyddiadau sylweddol costus, trychinebau naturiol a digwyddiadau eraill na ellir eu rhagweld. Hyd yma mae elfen o'r risg hon wedi'i rheoli yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau wrth gefn. Mae'r cyllidebau wrth gefn hyn yn cael eu lleihau ac mae mwy o'r risg yn cael ei throsglwyddo i'r Cronfeydd a'r Balansau.
- 8.2 Ar hyn o bryd mae £7.189miliwn yn y cronfeydd cyffredinol sy'n 5.09% o gyllideb net arfaethedig 2014-15. Ystyrir bod yr amrediad gochelgar rhwng 3- 5% o'r gyllideb net, ac mae'n debyg ei fod ar ben uchaf yr amrediad hwnnw yn yr hinsawdd gyfredol, yn arbennig o ystyried bod y cronfeydd wrth gefn wedi'u lleihau yn y gyllideb refeniw.

- 8.3 Mae'r Cronfeydd wrth Gefn a Neilltuwyd hefyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn o ganlyniad i reolaethau gwariant yn cael eu rhoi mewn lle yn gynnar yn barod am y toriadau sylweddol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi sut bydd y cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu defnyddio i leihau'r pwysau ar gostau refeniw yn y dyfodol ac i leihau'r risg hyd y gellir.
- 8.4 Bydd faint o'r arian wrth gefn a ddefnyddir yn dibynnu ar benderfyniadau terfynol Gwariant Cyfalaf a'r setliadau refeniw terfynol, felly y cynllun cyfredol a geir yn y tabl isod o ran sut bydd y cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd yn cael eu defnyddio orau i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Mewn sefyllfa pan nad yw'r swm yn hysbys (megis Cronfa wrth Gefn Digwyddiadau Sylweddol) nid oes newidiadau wedi'u dangos. Fe adolygir y defnydd a wneir o'r cronfeydd wrth gefn yn rheolaidd.

Cronfeydd wrth Gefn

Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio ar:	31.3.12	31.3.13	31.3.14	31.3.15	31.3.16	31.3.17	
	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	
Cronfa Derbynebaw Cyfalaf	2.228	2.725	0.829	0.000	0.000	0.000	I'w defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig. Mae gwariant ychwanegol sydd wedi'i gynllunio wedi'i gynnwys yn y gyllideb gyfalaf.
Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio	1.582	1.361	0.000	0.000	0.000	0.000	I'w defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig.
Y Gronfa Gyffredinol	7.189	7.189	7.189	7.189	7.189	7.189	Y lefel a argymhellir - 5% o'r gyllideb.
Arian yn y Gronfa wrth Gefn sydd wedi'i Neilltuo	29.043	31.027	29.167	22.642	18.614	15.488	Manylion isod
Cyfanswm yr Arian y Gellir ei Ddefnyddio	40.042	42.302	37.185	29.831	25.803	22.677	

Isod ceir dadansoddiad o ragamcan y Cronfeydd wrth Gefn a Neilltuwyd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol:

Disgrifiad	31.3.12	31.3.13	31.3.14	31.3.15	31.3.16	31.3.17
	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn
Buddsoddiad Cyfalaf	18.113	16.294	12.288	6.201	2.616	0.000
Trawsnewid	0.000	0.000	1.700	1.700	1.700	1.700
Digwyddiadau Sylweddol	2.040	2.040	2.040	2.040	2.040	2.040
MCP	2.097	2.615	3.061	3.427	3.788	4.082
Pensiynau ar sail Afiechyd	0.881	0.881	0.881	0.881	0.881	0.881
Yswiriant	1.259	1.259	1.259	1.259	1.259	1.259
Swyddogion/Staff ar	1.346	4.840	4.840	4.140	3.440	2.740

Brawf						
Costau Refeniw a Phrosiect	1.949	1.949	1.949	1.949	1.949	1.949
Cynnal a chadw'r hofrennydd	0.317	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Partneriaethau Cronfa Diogelwch	0.789	0.668	0.668	0.564	0.460	0.356
Cymunedol y Comisiynydd	0.000	0.229	0.229	0.229	0.229	0.229
Y Trawsnewid o Awdurdod yr Heddlu i'r CHTH	0.252	0.252	0.252	0.252	0.252	0.252

9. Ystyried yr Opsiynau

9.1 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr opsiynau sydd ar gael. Mae'r rhain yn amrywio o gynyddu'r Treth Cyngor 0% i gynyddu'r Treth Cyngor 4% fel yn ôl y rhagdybiaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig blaenorol. Mae pob cynnydd o 1% i'r Treth Cyngor werth £0.628miliwn yn y gyllideb. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl mae'r Comisiynydd wedi penderfynu cynnig cynnydd o 2%. Mae hyn yn gosod cyllideb heriol gyda gostyngiad cyffredinol o -1.31%. Mae toriadau wedi'u hadnabod i fantoli'r gyllideb, ond bydd yn anodd cadw cynyddiadau y dyfodol ar y lefel hon os bydd yr arian grant a geir yn gostwng, neu os bydd pwysau gweithredol newydd neu ddisgwyliadau'r cyhoedd yn cynyddu.

9.2 Mae lefel y Treth Cyngor o gymharu ag ardaloedd heddluoedd eraill hefyd wedi'i ystyried. Mae gwneud hyn wedi bod yn fwy anodd oherwydd bod yr ardaloedd plismona yn Lloegr yn cael £500miliwn rhyngddynt fel rhan o'r Grant Rhewi Treth Cymru a'r Grant Cymorth Treth Cyngor Lleol. Nid yw'r Grant Rhewi yn berthnasol yng Nghymru ac mae'r Grant Cymorth Treth Cyngor Lleol yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Awdurdodau Lleol.

9.3 Ar hyn o bryd Heddlu Gogledd Cymru sydd â'r lefel uchaf o Dreth Cyngor yng Nghymru a Lloegr - £223.11 ar gyfer annedd Band D, ond os cymerir y Grantiau uchod i ystyriaeth (oherwydd eu bod yn cymorthdalw cynyddiadau yn y Treth Cyngor), Gogledd Cymru fyddai'r 9fed uchaf. Os byddai'r nawdd i gyd yn cael ei ariannu drwy'r Treth Cyngor byddai lefel Treth Cyngor Gogledd Cymru yn y 32ain safle. Mae'r ffactorau hyn wedi'u hystyried wrth gynnig cynnydd diymhongar o 2% i'r Treth Cyngor.

9.4 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl ac mae wedi cadarnhau y byddai cynyddu'r Treth Cyngor 2% yn golygu bod digon o arian yn y gyllideb i ddarparu'r gwasanaeth plismona yn 2014-15. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd yn y dyfodol ynghylch lefel y grant a newidiadau i bwysau gweithredol, nid yw'n bosib dweud ar hyn o bryd os byddai cynnydd blynyddol o 2% yn gynladwy yn y tymor canolig.

9.5 Drwy gynyddu'r Treth Cyngor 2% dyma fyddai'r Bandiau Prisio Eiddo amrywiol:

A	B	C	D	E	F	G	H	I
151.74	177.03	202.32	227.61	278.19	328.77	379.35	455.22	531.09

9.6 Y praesept ar gyfer pob ardal sirol fydd:

Awdurdod Bilio	Sylfaen y Treth Cyngor	Swm y Praesept (£)
Cyngor Sir Ynys Môn	30,070.64	6,844,378
Cyngor Gwynedd	49,669.55	11,305,286
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	49,516.97	11,270,558
Cyngor Sir Ddinbych	38,349.38	8,728,702
Cyngor Sir y Fflint	61,501.00	13,998,243
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	52,525.00	11,955,215
	281,632.54	64,102,385

10. Y rhagolygon o safbwynt y Gyllideb yn 2014 i 2017-18

10.1 Mae'r rhagdybiaethau diwygiedig wedi cael ychydig o effaith ar ragamcaniadau'r dyfodol. O ran nawdd, mae rhagdybiaeth o ostyngiad o 3% i'r grant wedi'i wneud a rhagdybiaeth o gynydd o 2% yn y Treth Cyngor. Mae'r ddau yn gysylltiedig a bydd newid yn y nawdd grant yn arwain at adolygiad o lefel arfaethedig y Treth Cyngor. Mae'r manylion wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a cheir crynodeb o hyn isod.

10.2 Mae effaith chwyddiant a'r toriadau i'r grant wedi'u torri i lawr fel y ganlyn:

	2014-15 £miliwn	2015-16 £miliwn	2016-17 £miliwn	2017-18 £miliwn
Cynydd mewn chwyddiant	2.446 (1.70%)	2.355 (1.67%)	5.005 (3.49%)	2.464 (1.66%)
Gostyngiad i'r grant	3.857 (4.76%)	2.467 (3.20%)	2.239 (3.00%)	2.172 (3.00%)
Nawdd ychwanegol yn sgil cynyddu'r Treth Cyngor 2%	1.978	1.282	1.308	1.334
Diffyg diwygiedig	4.325	3.540	5.936	3.302

10.3 Mae'r cynlluniau i arbed arian yn y dyfodol wedi'u hadolygu fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Oherwydd bod lefel yr ansicrwydd yn uchel iawn ar gyfer 2017-18 dim ond gofynion y tair blynedd gyntaf sydd wedi'u hystyried mewn manylder. Mae angen arbed £13.801 yn y cyfnod 2014-15 i 2016-17 a rhaid gwneud £4.325miliwn o arbedion yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r tabl isod yn dangos y toriadau cynlluniedig y disgwylir eu gwneud o ran y prosiectau sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd a'r rhai hynny fydd yn cael eu hadolygu rhwng rŵan a mis Medi 2014. Gan nad yw'r adolygiadau newydd wedi'u cynnal eto amcangyfrifwyd y ffigyrau hyn. Mae toriadau heb fod yn staff yn cael eu targedu, ond bydd yr adolygiadau terfynol yn edrych ar staffio. Bydd angen datblygu'r cynlluniau ar gyfer 2017-18 ar ôl mis Medi 2014.

<u>Crynodeb o'r toriadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y 3 blynedd nesaf</u>	£miliwn
Cyfanswm y toriadau sydd angen eu gwneud dros y 3 blynedd	13.801
Prosiectau Cyfredol ac Adolygiadau	
Prosiect 2011+ ac adolygiadau eraill	0.666
Lwfansau, goramser a throsiant staff	1.557
Costau pensiwn	0.400
Rhaglen adnewyddu TG	0.321
Drylliau Tanio	0.700
Costau eraill heb fod yn staff	0.390
Incwm a grantiau	0.954
Contractau TG	0.700
Cyfanswm	5.688
Y bwlch i'w adnabod	8.113
 Ffrydiau Gwaith Newydd	
Yr Ystâd (gan gynnwys Canolfan Gyfathrebiadau'r Heddlu)	1.200
Trafnidiaeth	0.378
Adolygu'r Gyllideb/Cronfeydd Wrth Gefn	0.450
Arian Cyfalaf	0.400
Adolygu'r Swyddogaeth Gefnogi	2.000
Adolygu'r Gwasanaeth Plismona	3.685
 Cyfanswm i'w adnabod	8.113

- 10.4 O safbwynt y ddwy linell olaf uchod bydd lefelau staff yn cael eu lleihau, a'r her fydd i gyflawni hyn ar yr un pryd â chynnal gwasanaethau rheng flaen dros y pedair blynedd nesaf. Gan gadw mewn cof lefel debygol gostyngiadau yn Grantiau'r Llywodraeth bydd mwy o bwysau ar lefelau'r Treth Cyngor a'r Praesept.

11. Goblygiadau'r adroddiad

Amrywiaeth	Bydd argymhellion yr adroddiad yn dylanwadu ar niferoedd gweithlu'r Heddlu yn y blyneddodod i ddod.
Ariannol	Mae'r adroddiad yn manylu ar y materion ariannol.
Risg	Mae'r adroddiad yn adnabod ac yn gwerthuso'r risgiau sy'n deillio o'r argymhellion.
Cyfreithiol	Mae'r adroddiad, ar y cyd a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn darparu digon o wybodaeth i'r aelodau allu dod i benderfyniad a fyddai'n gallu gwrthsefyll her gyfreithiol yn y dyfodol.
Iaith Gymraeg	Ni adnabwyd unrhyw oblygiadau ar wahân.

12. Dogfennau cefndir

Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2014-15 i 2017-18 [Saesneg/Cymraeg](#)
Setliad Ariannol yr Heddlu 2014-15 - Llywodraeth Cymru [Saesneg/Cymraeg](#)
Datganiad o Gyfrifon [Saesneg/Cymraeg](#)

**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a
Heddlu Gogledd Cymru**

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

2014 -15 hyd 2017-18

1. Cyflwyniad

- 1.1** Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) sy'n cysylltu Cynllun Heddlu a Throsedd a'r Amcanion Heddlu a Throsedd y cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu arnynt gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r adnoddau sydd ar gael.

1.2 Nod

Nod y papur hwn yw rhoi manylion ynghylch sut y cafodd y gyllideb ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer ei mantoli yn ystod y blynyddoedd i ddod ar yr un pryd â chynnal perfformiad a sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni.

1.3 Cefndir

Roedd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gwreiddiol y Llywodraeth yn berthnasol i'r cyfnod 2011-2015 ac yn cynnwys toriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Y gostyngiad arian parod gwreiddiol y cynlluniwyd ar ei gyfer yng Nghyllidebau'r Heddlu dros y 4 blynedd oedd 12%. Cytunodd Awdurdod yr Heddlu ar gynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2011-12 a 2.5% ar gyfer 2012-13. Gosodwyd cynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor 2013-14, a oedd yn cynnwys ail fuddsoddi gwerth £1.8 miliwn o arbedion mewn swyddi ar gyfer 51 Swyddog Heddlu newydd. Ar adeg gosod cyllidebau 2013-14, y rhagdybiaeth gynllunio oedd toriad blynyddol o 3% mewn grantiau a chodiad o 4% yn Nhreth y Cyngor. Mae'r tabl isod yn nodi'r toriadau a wnaed hyd yma a'r toriadau a ragwelwyd ar adeg gosod cyllidebau 2013-14

Blwyddyn	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16
	£M	£M	£M	£M	£M
Toriadau					
Angenrheidiol	4.678	6.016	4.634	2.5529	2.237

- 1.4** Dros tair blynedd gyntaf ACW 2010 bydd gwerth £15.058 o doriadau wedi'u gwneud, gyda £1.8m yn cael ei ail fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen. Yn ystod 2013-14 cynhaliodd Canghellor y Trysorlys Adolygiad Gwariant (AG) 'bach' o 2014-15 a 2015-16. Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn (CATC2014) yn ymwneud â'r pedair blynedd 2014-15 hyd 2017-18.

2. Y Broses Gynllunio

- 2.1** Cynhaliodd Bwrdd Rhaglen 2011+ sawl adolygiad yn ystod 2010-11 mewn paratoad ar gyfer y toriadau ariannol. Cwblhawyd cam olaf yr adolygiadau hyn, Cam 5, yn ystod 2013-14, gyda rhai arbedion yn disgyn yn 2014-15. Adolygiadau

Prosiect 2011+ arweiniodd at y newidiadau sylweddol i'r model darpariaeth weithredol a'r gwasanaethau swyddfa gefn a roddwyd ar waith ar 4 Mai 2011. Adolygwyd y modelau darpariaeth hyn yn ystod 2012-13 a rhoddwyd Cam 3, Plismona Lefel 2 a Cham 4, Gweinyddiaeth Cyfiawnder Troseddol ar waith. Mae Cam 5, a oedd yn ymwneud â sawl maes nad oeddynt wedi'u hadolygu o'r blaen, hefyd wedi'i gwblhau. Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn yn canolbwyntio ar y blynyddoedd i ddod, gan amgangafrif y bwlch mewn adnoddau a sut y bydd cynlluniau'n cael eu datblygu er mwyn dod o hyd i'r toriadau angenrheidiol

2.2 Wrth ddatblygu'r CATC rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r isod

- Y broses gynllunio strategol
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr Hinsawdd Economaidd Bresennol
- Amcangafrifon o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllidebol ar gyfer y cyfnod, gan gynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf a'r Cod Ariannol a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth Gefn a Balansau
- Cynhyrchu incwm, gweithgaredd masnachu a grantiau
- Cydweithio
- Rheoli adnoddau ariannol

2.3 Ar 20 Tachwedd 2013 cafodd Tîm yr Uwch Swyddogion ac Arweinwyr Gwasanaethau drafodaethau manwl am set o gyllidebau drafft ac ar 21 Tachwedd trafododd Prif Swyddogion Cyllid y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl eu cynigion. Cyhoeddwyd ffigyrau grant y Llywodraeth ar 18 Rhagfyr a chynhaliwyd cyfarfod arall rhwng Tîm y Prif Swyddogion ac Arweinwyr Gwasanaethau ar yr un diwrnod. Cytunwyd ar y cynigion terfynol ar 20 Rhagfyr mewn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'i staff a Thîm y Prif Swyddogion. Bydd y Comisiynydd yn adolygu'r manylion terfynol yn y flwyddyn newydd cyn cyflwyno'r cynigion i'r Panel.

2.4 Bydd yr adrannau canlynol yn rhoi manylion ynghylch yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol gan gyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt Refeniw, Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn.

2 3. Cyllideb 2013 - 14

3.1 Torrwyd nawdd y Llywodraeth 1.6% yn 2013-14 (yn dilyn toriadau o 5.1% yn 2011-12 a 6.7% yn 2012-13). Codwyd Treth y Cyngor 3.98%. Daethpwyd o hyd i doriadau gwerth £4.634m ac ail fuddsoddwyd £1.777m o'r swm hwn mewn 51 swydd swyddog heddlu newydd, gan gynyddu'r nifer o swyddi o'r 1417 a gynlluniwyd i 1468.

- 3.2 Mae'r toriadau a ganfuwyd (wedi'u crynhoi isod) wedi'u gweithredu'n llwyddiannus. Rhagamcanir ar hyn o bryd y bydd tanwariant o £1.7m yn y flwyddyn. Mae mwyafrif y tanwariant hwn mewn rhannau o'r gyllideb sydd wedi'u targedu ar gyfer toriadau yn 2014-15.

Toriadau a wnaed yng nghyllideb 2013-14	
	£m
Adolygiadau 2012-13	-0.578
Adolygiadau blynnyddoedd blaenorol	-0.456
Sifileiddio	-0.565
Rhewi Cynyddiadau	-0.411
Lwfansau	-0.391
Hyfforddiant	-0.125
Cyllideb Ynni	-0.090
Arfwisg	-0.100
Contractau	-0.252
Cefnogaeth o'r Awyr	-0.285
Cronfa Sefyllfaoedd Arbennig	-0.093
Cronfa Gyffredinol	-0.250
Llog ar falensau	-0.038
Cyfanswm	-4.634

-

4. **Dyraniadau Nawdd**

- 4.1 Ni roddwyd Dyraniadau Nawdd Llywodraethol Dros dro ar gyfer 2014-15 fel rhan o setliad 2013-14. Yn dilyn adolygiad gwariant 'bach' y Canghellor ym mis Mehefin 2013 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddai cyfanswm cyllideb yr heddlu o fewn y Swyddfa Gartref yn cael ei thorri 3.3% a chymerwyd y byddai'r toriad hwn yn cael ei drosglwyddo i'r ardaloedd plismona.
- 4.2 Cyhoeddodd y Canghellor yn Natganiad yr Hydref 2013 (Rhagfyr 5) y byddai toriad ychwanegol o 1.1% ar gyfer y Swyddfa Gartref yn 2014 - 15 a 2015-16.
- 4.3 Ar 18 Rhagfyr Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona beth fyddai'r nawdd ar gyfer pob ardal blismona. Prif bwyntiau'r cyhoeddiadau oedd:
- Gostyngiad arian parod hollgynhwysfawr o 4.8% ar gyfer pob ardal blismona
 - Mae'r toriad hwn yn cynnwys y 3.3% a gyhoeddwyd eisoes ynghyd â thoriadau ychwanegol er mwyn ariannu gwariant canolog (wedi'u rhestru isod)
 - Ni fydd y toriad ychwanegol o 1.1% o Ddatganiad yr Hydref yn cael ei drosglwyddo i 2014-15.
 - Cyhoeddiad parthed dyraniad nawdd 2015-16 i'w ohirio tan yn ddiweddarach.

4.4 Mae Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd, a oedd yn Grant Penodol yn 2013-14, wedi'i symud i'r Grant Cyffredinol, fel y cyhoeddwyd eisoes. Mae sylfaen 2013-14 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu hyn er mwyn gallu cymharu tebyg â thebyg.

4.5 Cyfanswm Nawdd y Llywodraeth ar gyfer 2014-15 fydd £77.102 miliwn, sef gostyngiad o £3.857m o'r ffigwr o £80.959 yn 2013-14. Mae'r toriad o 3.3% i gyfanswm cyllideb heddlu'r Swyddfa Gartref yn cyfrif am £2.671m o hwn, gyda'r £1.186m ychwanegol yn cael ei dorri i noddi mentrau'r Swyddfa Gartref. Mae'r mentrau hyn a'r cyfansymiau a glustnodwyd ar eu cyfer fel a ganlyn:

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu	£18m
Cronfa Arloesedd	£50m
Canolfan Cydlynwyr Cenedlaethol yr Heddlu	£ 2m
Coleg Plismona	£ 3m
Heddlu Dinas Llundain	£ 2m
Arolygwyr Heddluoedd Ei Mawrhydi	£ 9m

4.6 Ni wnaed unrhyw gyhoeddiad ynglŷn â nawdd ariannol o 2015-16 ymlaen; er bod y Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi'n flaenorol bod 'tampio' (y broses o sicrhau, lle mae'r grant fformiwla a gyfrifwyd yn arwyddocaol wahanol i'r hyn a dderbyniwyd yn flaenorol, bod y newid mewn grant yn cael ei roi ar waith dros nifer o flynyddoedd er mwyn osgoi ansefydlogrwydd ariannol; canlyniad hyn yw toriad o 4.8% yn y grant i bob maes yn 2014/15) yn cael ei roi ar waith mewn ffordd gyffelyb yn 2015-16 a hynny cyn adolygiad sylfaenol o Fformiwla Ariannu'r Heddlu. Yn seiliedig ar y ffigyrau sydd ar gael ac oherwydd bod y Llywodraeth wedi awgrymu'n gryf y bydd yr ymdrechion i arbed arian yn parhau y tu hwnt i 2016-17, cymerir y bydd gostyngiad o 3.2% yn y grant ar gyfer 2016-17 a 3% yn y blynyddoedd wedi hynny

4.7 Mae'r Tabl isod yn crynhoi gwir nawdd a nawdd rhagamcanol y Llywodraeth o 2012-13 i 2016-17

13-14	14-15	14-15	14-15	15-16	15-16	15-16	16-17	16-17	16-17	17-18	17-18	17-18
Grant	Toriad	Toriad	Grant	Toriad	Toriad	Grant	Toriad	Toriad	Grant	Toriad	Toriad	Grant
£m		£m	£m	%	£m	£m	%	£m	£m	%	£m	£m
80.959	4.8	-3.857	77.201	3.2	-2.467	74.635	3.0	-2.239	72.396	3.0	-2.172	70.224

5. Treth y Cyngor a'r Praesept

5.1 Mae dwy elfen i gyllideb net hollgynhwysfawr yr heddlu, sef cyfanswm grantiau'r heddlu a'r Praesept. Mae cyfran y ddwy ffynhonnell hon o nawdd ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru fel a ganlyn.

	2013-14	
	£m	%
Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth	80.959	56.5%
Cyfanswm Praeseptau	62.124	43.5%
Cyfanswm Gofynion Cyllidebol	143.083	

- 5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu cyfanswm y gofyniad praesept â'r sylfaen drethi, sef cyfanswm yr eiddo Band D yn ardal pob heddlu. Darperir y sylfaen drethi gan y chwech Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Yn 2013-14 roedd gostyngiad yn y sylfaen drethi o ganlyniad i ostyngiad tybiedig yn y symiau y gallai'r Awdurdodau Lleol yn eu casglu Roedd hyn yn golygu bod y cynnydd o 3.98% yn Nheth y Cyngor yn 2013-14 wedi arwain at gynnydd is yn y praesept o 3.47%. Mae'r sylfaen drethi ar gyfer 2014-15 wedi cynyddu 1.1% a fydd yn golygu y bydd y cynnydd canrannol yn y praesept yn uwch na'r cynnydd yn Nheth y Cyngor. Deilliodd y newidiadau hyn o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a'r ffordd y telir Budd-dal Tai, a effeithiodd yn ei dro ar y gyfradd casgliadau Treth y Cyngor rhagamcanol. Gwnaed yn iawn am y newidiadau hyn drwy daliad Grant ychwanegol i'r Awdurdodau Lleol .
- 5.3 Mae'r rheolau ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn Nheth y Cyngor, a elwir yn reolau capio, yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Cafodd ardaloedd plismona yn Lloegr fynediad at grantiau ar wahân os oeddent yn cytuno i gyfyngu ar y cynnydd yn Nheth y Cyngor. Roedd y rhain yn cael eu talu gynt gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ond maent erbyn hyn wedi'u cynnwys yn y Grant Llywodraeth Leol sy'n werth £500m. Heddlu Gogledd Cymru sydd â'r Treth y Cyngor ail uchaf ond pe cymerwyd y Grantiau Treth y Cyngor Etifeddol hyn i ystyriaeth byddai Gogledd Cymru yn 9fed uchaf.
- 5.4 Nid yw'r rheolau capio yn Lloegr wedi'u cyhoeddi ond dywedodd y Canghellor pe bai Treth y Cyngor yn cynyddu fwy na 2% y byddai'n disgwyl bod refferendwm yn cael ei gynnal. Mae gan ardaloedd plismona ac Awdurdodau Lleol yn Lloegr fynediad i grant ychwanegol cyfwerth â chynnydd o 1% yn Nheth y Cyngor yn 2014-15 os ydynt yn rhewi neu'n gostwng eu Treth Cyngor.
- 5.5 Ni chyhoeddwyd unrhyw reolau capio yng Nghymru. Mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol ac at Gomisiynwyr yn dweud ei bod yn fodlon defnyddio'r pwerau capio os yw'r codiadau yn Nheth y Cyngor yn ymddangos yn afresymol. Nid oes grant gostyngiad yn Nheth y Cyngor ar gael yn Nghymru.

6. Rhagolygon Cyllidebol a Gostyngiadau wedi'u Cynllunio 2014-15 i 2017-18

6.1 Gwelir crynodeb o Ragolygon y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2013-14 a'r blynnyddoedd i ddod yn Atodiad B.

6.2 Roedd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 yn nodi'r glir y byddai toriadau'n digwydd dros gyfnod o bedair blynedd, sef 2011-12 i 2014-15. Cyllideb 2014-15 yw blwyddyn olaf y cyfnod cyntaf o doriadau ariannol, ond mae'n amlwg bellach mai dyma hefyd blwyddyn gyntaf cyfnod o doriadau pellach. Mae toriadau sy'n angenrheidiol hyd at 2017-18 wedi cael eu diwygio'n seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

- Chwyddiant cyflogau 1% o Fedi 2013
- Chwyddiant cyffredinol 2%, chwyddiant penodol wedi'i ddefnyddio ble'n hysbys (e.e. bydd taliadau am systemau IT cenedlaethol yn codi 15% yn 2014-15)
- Cynnydd o 2% yn Nhreth y Cyngor
- Gostyngiadau grant o 4.8% 2014-15, 3.2% 2015-16 a 3% dros y 2 flynedd ddilynol
- Bydd newidiadau i daliadau Yswiriant Gwladol yn 2016-17 yn ychwanegu £2.7m arall at y bil cyflogau

6.3 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethu hyn amcangyfrifir mai'r toriadau angenrheidiol dros y 4 blynedd nesaf fydd £17.091m, fel a ganlyn:

Blwyddyn	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
	£M	£M	£M	£M
Toriadau Angenrheidiol	4.325	3.540	5.936	3.302

6.4 Gellir dadansoddi effaith chwyddiant a thoriadau mewn grantiau fel a ganlyn:

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
	£m	£m	£m	£m
Cynnydd Chwyddiannol	2.446 (1.70%)	2.355 (1.67%)	5.005 (3.49%)	2.464 (1.66%)
Gostyngiad mewn Grant	3.857 (-4.76%)	2.467 (-3.2%)	2.239 (-3.0%)	2.172 (3.0%)
Nawdd ychwanegol o 2% o gynnydd yn Nhreth Cyngor	-1.978	-1.282	-1.308	-1.334
Diffyg diwygiedig	4.325	3.540	5.936	3.302

6.5 Mae'r cynlluniau arbed arian wrth symud ymlaen wedi'u hadolygu fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Gan fod y lefel o ansicrwydd wrth symud tuag at 2017 – 18 yn uchel iawn, edrychwyd ar ofynion y tair blynedd gyntaf yn fanwl. Bydd

angen cyfanswm o £13.801m o doriadau yn y cyfnod 2014-15 tan 2015-2017, gyda £4.323m o'r rhain yn angenrheidiol yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r tabl isod yn dangos y toriadau arfaethedig ac yn gwahaniaethu rhwng y rhai hynny a ddisgwyllir dros y tair blynedd nesaf o brosiectau ac adolygiadau sydd eisoes ar y gweill a'r rhai hynny o adolygiadau newydd fydd yn cael eu cynnal rhwng rwan a Medi 2014. Nid yw'r adolygiadau newydd wedi'u cynnal eto felly amacangyfrifon yw'r ffigyrau. Mae toriadau heb fod yn staff yn cae eu targedu, ond bydd yr adolygiadau terfynol yn cynnwys staff ac mae'r niferoedd cyfatebol o staff wedi'u dangos er mwyn rhoi syniad o lefel y toriadau ar hyn o bryd. Bydd angen datblygu cynlluniau ar gyfer 2017-18 ar ôl Medi 2014.

Crynodeb o'r cynlluniau cwtogi dros dair blynedd

	£m
Cyfanswm toriadau angenrheidiol dros 3 blynedd	13.801
Adolygiadau/Prosiectau eisoes ar y gweill	
Prosiect 2011+ ac Adolygiadau eraill	0.666
Lwfansau, Goramser a Throsiant	1.557
Costau Pensiynau	0.400
Rhaglen Adnewyddu TG	0.321
Cynghrair Drylliau Tanio	0.700
Eraill heb fod yn staff	0.390
Incwm a grantiau	0.954
Contractau TG	<u>0.700</u>
Cyfanswm toriadau angenrheidiol	<u>5.688</u>
Bwlch	8.113
Ffynonellau gwaith newydd i'w hadolygu	
Ystadau (yn cynnwys Canolfan Gyfathrebiadau'r Heddlu)	1.200
Cludiant	0.378
Adolygiad Cyllideb/Cronfeydd wrth gefn	0.450
Nawdd cyfalaf	0.400
Adolygiad o'r swyddogaeth gefnogi (57 aelod o staff)	2.000
Adolygiad o wasanaethau plismona (59 SCCH+42 Swyddog)	3.685
Cyfanswm	8.113

6.6. O'r uchod, gellir gweld bod y toriadau y gellir eu gwneud yn 2014-15 wedi'u hadnabod ac mae'r manylion wedi'u nodi isod:

		Dadansoddiad o gyllideb arfaethedig 2014-15
		£m
Cyllideb 2013-14		<u>143.083</u>
(wedi'i haddasu i gynnwys Grant CSF)		
Cwyddiant Cyflogau		1.455
Chwyddiant heb fod yn gyflogau		0.577
Noddir drwy Grant		0.414
Gofyniad cyllideb diwygiedig		<u>145.529</u>
Cyfanswm nawdd amcangyfrifedig	2014-15	<u>141.204</u>

Toriad Angenrheidiol	<u>4.325</u>
----------------------	---------------------

Toriadau a adnabuwyd y gellir eu cymryd yn 2014-15

	£m
Prosiect 2011+ ac Adolygiadau eraill	-0.666
Lwfansau, Goramser a Throsiant	-1.324
Costau Pensiynau	-0.400
Rhaglen Adnewyddu TG	-0.321
Cynghrair Drylliau Tanio	-0.400
Uned Fforensig	-0.150
Incwm	-0.540
Grantiau	-0.414
Chwyddiant	-0.110
Cyfanswm	<u>-4.325</u>

7. Recriwtio

- 7.1 Gosodwyd nifer y swyddogion heddlu (y nifer o swyddi swyddogion heddlu a noddir yn y Gyllideb) ar 1468 ar gyfer 2013-14. Y cynllun gwreiddiol oedd 1417 ond cafwyd nawdd ychwanegol o £1.8 i noddi 51 swydd rheng flaen. Mae'r swyddi hyn wedi'u llenwi gyda naill ai swyddogion profiadol neu recriwtiaid newydd eu hyfforddi. Gosodwyd y cynllun recriwtio er mwyn bod â swyddogion wedi'u hyfforddi'n llawn yn y swyddi sefydledig. Bydd nifer y swyddi yn amrywio o ganlyniad i niferoedd swyddi wedi'u noddi â grant a swyddogion ar secondiad yn ogystal ag effaith unrhyw sifileiddio swyddi neu gwtogi swyddi Swyddogion Heddlu. Bydd gwir niferoedd swyddogion heddlu yn amrywio yn ddibynnol ar y nifer o ymddeoliadau a gadawyr eraill a'r proffil recriwtio.

- 7.2 Mae'r cynllun presennol yn cynnwys pum derbyniad o 18 dros y flwyddyn, fodd bynnag bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn gan y bydd y niferoedd angenrheidiol yn dibynnu ar y niferoedd sy'n gadael. Ar ddechrau 2014-15 bydd 1438 swyddog heddlu, gyda'r gostyngiad mewn niferoedd wedi digwydd o ganlyniad i'r gostyngiad mewn swyddi ychwanegol a ariennir gan y Swyddfa Gartref, sifileiddio, secondiadau, a gweithrediad terfynol Prosiect 2011+. Gweler y crynodeb isod:

Cyfanswm nifer swyddogion heddlu ar 1.4.2013	1468
Troi swyddi swyddogion heddlu yn swyddi staff	-7
Swyddi a ariennir gan y Swyddfa Gartref	- 22
Prosiectau/secondiadau	- 1
Cyfanswm swyddogion heddlu ar 1.3.2014	1438

8. Risgiau

- 8.1 Mae'r lefel o ansicrwydd wrth osod cyllideb 2014-15 wedi bod yn uchel gan nad oedd y nawdd grant yn hysbys tan 18 Rhagfyr. Mae'r lefel o ansicrwydd ar gyfer 2015-16 hefyd yn uchel gan nad oes unrhyw ffigyrau wedi'u cyhoeddi ar gyfer y cyfnod hwn.
- 8.2 Mae'r cynlluniau ar gyfer yr arbedion yn 2012-13 yn eu lle ac yn cael eu rhoi ar waith, fodd bynnag bydd angen profi'r arbedion posibl yn 2013-14 a 2014-15. Credir y bydd modd darparu'r rhain yn y flwyddyn. Mae'n rhaid adnabod a darparu toriadau y tu hwnt i 2014-15. Nid yw'r holl arbedion dan reolaeth yr Heddlu, bydd arbedion o gydweithio yn ddibynnol ar heddluoedd eraill, a bydd costau ac arbedion cyflogau yn ddibynnol ar gytundebau cenedlaethol terfynol.
- 8.3 Mae'r toriadau amcangyfrifedig yn seiliedig ar ragdybiaeth gynllunio o gynnydd o 2% yn Nhreth y Cyngor. Pe bai penderfyniad i godi canran llai na hyn, byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad ychwanegol o £0.628m i gyllidebau 2014-15.
- 8.4 Mae'r Swyddfa Gartref wedi cymryd cyfran o'r symiau a ddyrannwyd i'r ardaloedd plismona yn 2014 – 15 er mwyn noddi Unedau a mentrau cenedlaethol. Bydd rhagor o arian yn cael ei gymryd i noddi Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu dros y ddwy flynedd nesaf. Gallai unrhyw fentrau eraill newydd olygu y bydd rhagor yn cael ei gymryd o'r cyllidebau.
- 8.5 Nid yw'r fformiwla ariannu'r heddlu presennol wedi cael ei roi ar waith yn llawn gan yr ystyriwyd fod yr amrywiadau mewn nawdd yn rhy sylweddol. Gwneir y cywiriad drwy'r Grant Llawr; roedd y cyhoeddiad nawdd yn datgan y byddai'r Grant Llawr yn parhau yn 2014-15. Bydd adolygiad llawn o Fformiwla Dyrannu'r Heddlu'n cael ei gynnal gan y Swyddfa Gartref unwaith y bydd y Comisiynwyr

wedi'u sefydlu yn eu swyddi. Mae adolygiad o'r fformiwla yn debygol o fod o fudd i Heddluoedd mwy a gallai arwain at lai o arian i Heddlu Gogledd Cymru.

- 8.6 Gellid gwneud rhagor o doriadau yn y cyfnod ACW nesaf. Bydd pob toriad 1% ychwanegol i'r Grant Gyffredinol yn ostyngiad arian parod o dros £0.771m
- 8.7 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei gwario ar gyflogau bydd unrhyw newidiadau bychan mewn codiadau cyfog, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant cenedlaethol yn cael effaith anghymesur ar y gyllideb
- 8.8 Mae'r tabl isod yn amlygu sensitifrwydd y prif ragdybiaethau

Prif amrywiadau sensitifrwydd	£m
1% yn llai o gynnydd yn Nhreth y Cyngor	0.628
1% o ostyngiad mewn grant	0.771
1% yn llai o gynnydd mewn cyflogau	1.116
1% o gynnydd mewn chwyddiant	0.300

9. Cronfeydd wrth Gefn a Balansau

- 9.1 Mae ar y Comisiynydd ddyletswydd i sicrhau fod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risg. Yn ychwanegol ar y risgiau ariannu a rhagdybio uchod, mae angen i'r Comisiynydd wneud darpariaethau ar gyfer risgiau gwariant (gwario dros y gyllideb), digwyddiadau mawr/difrifol costus, trychinebau naturiol a digwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Mae elfen o'r risg hwn wedi'i reoli drwy'r cyllidebau wrth gefn sydd o fewn y cyllidebau blwyddyn. Bydd y rhain yn cael eu cwtogi dros y tair blynedd nesaf gyda chyfran fwy o'r risg hwnnw'n cael ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau.
- 9.2 Mae'r Cronfeydd Cyffredinol ar hyn o bryd yn £7.189m sef 5.09% o gyllideb net amcangyfrifedig 2014-15. Ystyrir mai'r amrediad gochelgar yw 3% - 5% o'r gyllideb net ac mae'n beth doeth bod ar y pegwn uchaf yn yr hinsawdd bresennol, o gofio y cafodd y cronfeydd wrth gefn eu lleihau yn y gyllideb refeniw.
- 9.3 Mae Cronfeydd wedi'u Clustnodi hefyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf a hynny o ganlyniad i'r ffaith y dechreuwyd rheoli gwariant yn gynnar oherwydd y rhagwelwyd toriadau sylweddol. Yn gynnar yn 2010-11 roedd arwyddion y byddai angen oddeutu £25m o doriadau yn ystod cyfnod CSR2010. Byddai toriadau ar y lefel hon wedi golygu ariannu costau diswyddo sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn. Rhoddwyd unrhyw gronfeydd wrth gefn nad oeddynt wedi'u clustnodi'n bendant mewn 'Cronfa Costau Diswyddo' i gychwyn. Fodd

bynnag mae'r lefelau presennol o doriadau wedi galluogi gwneud defnydd mwy cadarnhaol o'r cronfeydd hyn - defnydd a fydd o fantais i'r gwasanaeth ac yn lleihau pwysau ar refeniw yn y dyfodol. Mae'r cronfeydd ychwanegol hefyd wedi galluogi trosglwyddo risg o'r gyllideb refeniw i'r cronfeydd wrth gefn. Dim ond 30 diwrnod o rybudd eu bod yn bwriadu ymddeol y mae'n rhaid i swyddogion ei roi felly mae hi bob amser yn anodd rhagweld yn union faint o swyddogion newydd y bydd angen eu recriwtio, felly mae bod â chronfa wrth gefn yn galluogi'r heddlu i weithredu'r Strategaeth Recriwtio sydd wedi'i hamlinellu yn adran 7 mewn dull rheoledig.

- 9.4 Bydd y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a'r setliadau refeniw terfynol, mae'r tabl isod felly yn dangos y cynllun presennol o ran gwneud y defnydd gorau o gronfeydd wedi'u clustnodi i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Lle nad yw'r ddefnydd yn hysbys (e.e. Cronfa Digwyddiadau Difrifol) ni ddangosir unrhyw newidiadau. Bydd y defnydd o'r cronfeydd wrth gefn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Rhoddir dadansoddiad o'r Cronfeydd a Glustnodwyd amcangyfrifedig ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol isod

Sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn

<i>Cronfeydd defnyddiadwy ar</i>	31.3.12 £m	31.3.13 £m	31.3.14 £m	31.3.15 £m	31.3.16 £m	31.3.17	
Cronfa Derbynebaw Cyfalaf	2.228	2.725	0.829	0.000	0.000	0.000	Ni ellir eu defnyddio ond fel cyfalaf, mae gwerthiannau ychwanegol wedi'u cynllunio wedi'u cynnwys yn y nawdd cyfalaf
Grantiau Cyfalaf heb eu clustnodi	1.582	1.361	0.000	0.000	0.000	0.000	Ni ellir ond eu defnyddio fel cyfalaf
Balans y gronfa gyffredinol	7.189	7.189	7.189	7.189	7.189	7.189	Ar y 5% gofynnol o'r gyllideb net
Cronfeydd Cronfa Gyffredinol wedi'u Clustnodi	29.043	31.027	29.167	22.642	18.614	15.488	A fanylir isod
Cyfanswm cronfeydd defnyddiadwy	40.042	42.302	37.185	29.831	25.803	22.677	

Disgrifad	31.3.12	31.3.13	31.3.14	31.3.15	31.3.16	31.3.17
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Buddsoddiad cyfalaf	18.113	16.294	12.288	6.201	2.616	0.000
Cronfa Trawsnewid	0	0	1.700	1.700	1.700	1.700
Digwyddiadau Mawr/Difrifol	2.04	2.04	2.040	2.040	2.040	2.040
Cronfa PFI	2.097	2.615	3.061	3.427	3.788	4.082
Cronfa Pensiynau Salwch	0.881	0.881	0.881	0.881	0.881	0.881
Cronfa Yswiriant	1.259	1.259	1.259	1.259	1.259	1.259
Cronfa swyddogion ar brawf	1.346	4.84	4.840	4.140	3.440	2.740
Costau refeniw a phrosiectau	1.949	1.949	1.949	1.949	1.949	1.949
Cynnal yr hofrennydd	0.317	0	0.000	0.000	0.000	0.000
Cronfa bartneriaethau	0.789	0.668	0.668	0.564	0.460	0.356
Cronfa diogelwch cymunedol y Comisiynydd	0	0.229	0.229	0.229	0.229	0.229
Cronfa Awdurdod yr Heddlu/Trosglwyddo i'r CHTH	0.252	0.252	0.252	0.252	0.252	0.252
Cyfanswm	29.043	31.027	29.167	22.642	18.614	15.488

9.5 Cronfa Buddsoddi Cyfalaf – i'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau a seilwaith yr heddlu er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth a lleihau gwariant refeniw.

Cronfa Trawsnewid – i ariannu costau cysylltiedig â gweithredu cynlluniau arbed newydd

Cronfa Digwyddiadau Mawr/Difrifol – i'w defnyddio os ceir Digwyddiad Difrifol sydd angen mwy o adnoddau nag sydd ar gael o fewn y gyllideb flynyddol. Oherwydd y gronfa hon bu modd lleihau'r Gronfa Digwyddiadau Difrifol Frys.

Cronfa PFI Wrth Gefn – mae angen y gronfa hon oherwydd bod nawdd gan y Llywodraeth ar gyfer y PFI yn lleihau'n flynyddol. Bydd y gronfa'n lleihau'n raddol dros fywyd y cytundeb PFI.

Cronfa Bensiynau Salwch – bob tro y bydd swyddog yn ymddeol ar sail salwch mae'n rhaid talu un swm cyfwerth a chyflog y swyddog x2. Mae'r gronfa hon wedi lleihau'r angen am ddal y gyllideb mewn refeniw.

Yswiriant- mae hyn yn ymwneud â Chynllun Trefniant Municipal Mutual Insurance Limited a allai arwain at daliad ariannol terfynol o £0.432m mewn perthynas a hawliadau anhysbys a allent ddigwydd a hawliadau anhysbys yn y dyfodol a amlygir gan y brocer yswiriant.

Cronfa Swyddogion ar Brawf – i'w defnyddio i noddi swyddogion ar brawf ychwanegol er mwyn galluogi llenwi swyddi gyda swyddogion wedi'u hyfforddi.

Costau refeniw a phrosiectau – i'w defnyddio i ariannu costau nwid

Cronfa Gynnal a Chadw'r Hofrennydd – ddim bellach yn angenrheidiol gan fod yr hofrennydd wedi trosglwyddo i uned genedlaethol, felly mae'r swm wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gyfalaf.

Cronfa Partneriaethau - balansau'n cael eu dal ar gyfer partneriaethau penodol fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu'n cael eu dal rhag ofn y bydd nawdd yn cael ei dynnu'n ôl a bod hynny'n arwain at gostau ychwanegol.

Cronfa Diogelwch Cymunedol – i ddarparu adnoddau ychwanego i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol

Swyddfa'r CHTH a Thrawsnewid i'r CHTH – cronfa wrth gefn SCHTh a swm a glustnodwyd ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig â thrawsnewid i'r strwythurau newydd.

10. Cyfalaf

- 10.1 Fel rhan o'r ymarfer torri costau cafodd y Rhaglen Gyfalaf ei gohirio, a dim ond prosiectau yr oedd yr heddlu eisoes wedi ymrwymo iddynt aeth yn eu blaen. Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r gofynion cyfalaf, gyda ffocws ar brosiectau 'buddsoddi i arbed', ar y prif feysydd o wariant cyfalaf sef yr Ystâd, y Fflyd a TG. Mae'r Rhaglen newydd yn cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd, mae manylion y prosiectau unigol wedi'u cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2013-2017 (Atodiad C) ac maent wedi'u crynhoi isod. Fel rhan o ddod o hyd i'r toriadau angenrheidiol bydd y Rhaglen yn cael ei hadolygu gyda'r nod o leihau'r gofynion benthycu.

10.2 Rhaglen Gyfalaf 2013-16 i 2016-17

Gwariant	£m
Ystadau	25.625
Cerbydau ac Offer	7.220
Technoleg gwybodaeth a Chyfathrebu	7.750
Cyfanswm	40.595
Nawdd	
Grantiau	5.982
Cyfraniadau Refeniw	2.680
Cronfeydd wrth Gefn	16.294
Derbynebaw cyfalaf	5.644
Benthycu	9.985
Cyfanswm	40.585

11 Crynodeb

- 11.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dwyn at ei gilydd fanylion o ail ddylunio'r heddlu, rhagamcanion incwm a gwariant a chynlluniau i gwrdd â thoriadau'r dyfodol. Cyflwynir y rhagdybiaethau, y risgiau a'r sensitifrwydd sydd y tu ôl i'r rhagolygon. Rhoddir y rhagdybiaethau, y risgiau a'r sensitifrwydd y tu ôl i'r rhagolygon. Mae'r Cynlluniau Gweithredol a Strwythurol yn seiliedig ar y Strategaethau a'r Cynlluniau y cytunodd yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd arnynt, fel rhan o'r Cynllun Plismona. Mae'r CATC yn clustnodi'r adnoddau er mwyn gwireddu'r blaenoriaethau a osodwyd o fewn cyllideb gytbwys.

Atodiad A

Y Strategaeth Ariannol

Amcanion Strategol Ariannol:

- Blaenoriaethu adnoddau fel bod cynlluniau gwariant yn cyd-fynd â gweledigaeth ac amcanion strategol y CHTh a'r PG, fel y'i nodir yn y Cynllun Plismona
- Cynnal cyllideb gytbwys a gosod cynllun ariannol tymor canolig sy'n cynnal y gwasanaeth drwy gyfnod o doriadau ariannol
- Darparu gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr lleol
- Arfer cywirdeb, darbodaeth a rheolaeth ariannol gref
- Darparu fframwaith cadarn fydd yn cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau
- Rheoli risg, gan gynnwys cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel addas a chadw dyled ar lefel gynaliadwy.
- Adolygu cyllidebau'n gyson er mwyn sicrhau bod adnoddau wedi'u targedu ar amcanion allweddol

Er mwyn gwireddu'r strategaeth, bydd Cynllunio Amcanion yn digwydd fel a ganlyn:

Cynllunio Corfforaethol a Busnes

- Cyfuno cynllunio gweithredol ac ariannol er mwyn sicrhau bod adnoddau wedi'u cyfeirio tuag at gefnogi'r blaenoriaethau sydd wedi'u gosod yn y Cynllun Strategol, a chydweddu adnoddau ag amcanion corfforaethol.
- Cynhyrchu cynllun ariannol ar gyfer y pedair blynedd nesaf a fydd yn cynnwys prosiectau cyfalaf a refeniw mwyaf yr Heddlu ynghyd â'r strategaethau TG ac Ystadau ac yn sicrhau ariannu cynaliadwy dros y tymor byr a chanolig
- Cynhyrchu cyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol fanwl fydd yn cefnogi'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau

Rheoli Risg - Cronfeydd a Darpariaethau

- Cynnal cronfeydd a darpariaethau digonol i sicrhau bod y rhaglen bolisi tymor canolig yn gynaliadwy ac y gellir ei darparu
- Anelu at gydbwysu'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig heb ddibynnu ar y defnydd o gronfeydd cyffredinol
- Cynnal tair lefel o wytnwch trwy ddefnyddio cronfeydd a darpariaethau:

1. Rheoli'r Gyllideb Flynyddol
2. Cronfeydd wedi'u clustnodi, gan gynnwys y Gronfa Digwyddiadau Mawr/Difrifol
3. Cronfa Gyffredinol o rhwng 3% a 5% o'r gwariant refeniw net

Rheoli Risg – Fframwaith Rheoli Ariannol

- Cynnal fframwaith o reolaeth ariannol sy'n allweddol o ran cynnal safonau effeithiol o weinyddiaeth a stiwardiaeth ariannol. Gwireddir hyn drwy'r dulliau canlynol.

Cadw at y Rheolau a'r Rheoliadau Statudol
 Cod Llywodraethu Corfforaethol
 Polisiâu a Gweithdrefnau'r Heddlu
 Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog
 Polisi Rheoli'r Trysorlys a Chadw at y Cod Ariannol
 Gweithredu Argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol
 Rheoli Risg
 Codau Ymddygiad Proffesiynol

- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol i gofnodi a rheoli adnoddau a symud tuag at brosesu electronig llawn
- Ar lefel weithredol, alinio cyfrifoldeb ariannol â'r rheolaeth neu'r dylanwad rheoli priodol
- Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir a chyfredol ar gael er mwyn galluogi defnyddwyr i wneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth honno wrth wneud penderfyniadau.

Cyllideb 2013-14 i 2016-17					Atodiad B					
	Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb	
	2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
Gwariant	£000		£000		£000		£000			
1 Cyflogau Swyddogion Heddlu	71,689	-478	71,211	1,214	72,425	3,920	76,345	1,227	77,572	
2 Cyflogau Staff Heddlu	39,862	608	40,470	647	41,117	651	41,768	655	42,423	
3 Goramser Swyddogion Heddlu	2,294	-150	2,144	0	2,144	0	2,144	0	2,144	
4 Goramser Staff Heddlu	406	0	406	0	406	0	406	0	406	
5 Lwfansau	3,254	-706	2,548	-50	2,498	-50	2,448	-50	2,398	
6 Hyfforddiant	626	13	639	13	652	13	665	13	678	
7 Staff eraill	656	4	660	13	673	13	686	14	700	
8 Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	2,944	76	3,020	82	3,102	84	3,186	86	3,272	
9 Costau Ynni	1,342	67	1,409	71	1,480	74	1,554	78	1,632	
10 Costau Rhedeg Adeiladau	6,718	60	6,778	136	6,914	138	7,052	141	7,193	
11 Trwsio a chynnal a chadw cerbydau	876	18	894	17	911	19	930	19	948	
12 Costau Rhedeg Cerbydau	2,079	86	2,165	90	2,255	94	2,349	98	2,447	
13 Lwfansau Cerbydau a Theithio	693	11	704	14	718	14	732	15	747	
14 Uned Cefnogaeth o'r Awyr	1,394	0	1,394	0	1,394	0	1,394	0	1,394	
15 Offer	860	-79	781	15	796	16	812	16	828	
16 Dillad a Lifrai	426	0	426	0	426	0	426	7	433	
17 Printio a deunydd swyddfa	579	-24	555	11	566	12	578	12	589	
18 TG a Chyfathrebiadau	9,446	-321	9,125	0	9,125	0	9,125	0	9,125	
19 Cynhaliath	278	-2	276	5	281	6	287	6	293	
20 Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill	3,931	236	4,167	30	4,197	30	4,227	99	4,327	
21 Gwasanaethau Fforensig	1,471	-120	1,351	27	1,378	27	1,405	28	1,433	
22 Taliadau Dyledion a Chyfraniadau i Gyfalaf	1,904	0	1,904	0	1,904	0	1,904	0	1,904	
23 Cronfa Sefyllfaeodd Arbennig	554	0	554	0	554	0	554	0	554	
24 Chwyddiant a Chronfa Wrth Gefn Gyffredinol	546	-111	435	0	435	0	435	0	435	
25 Cronfa Diogelwch Cymunedol	1,379	-213	1,166	0	1,166	0	1,166	0	1,166	
Gwariant Gros	156,207	-1,025	155,182	2,335	157,517	5,061	162,578	2,464	165,041	
Incwm										
26 Secondiadau	-1,302	-183	-1,485	0	-1,485	0	-1,485	0	-1,485	
27 Llog ar Falansau	-271	0	-271	0	-271	0	-271	0	-271	
28 Incwm	-2,106	-337	-2,443	0	-2,443	0	-2,443	0	-2,443	
29 Grantiau Penodol	-9,891	-157	-10,048	63	-9,985	53	-9,932	0	-9,932	
Cyfanswm Incwm	-13,570	-677	-14,247	63	-14,184	53	-14,131	0	-14,131	
30 Cronfa PFI	446	-73	373	-43	330	-109	221	0	221	
31 Cronfa Ymwybyddiaeth Cyflymder	0	-104	-104	0	-104	0	-104	0	-104	
32 Ychwanegol o'r Cronfeydd wrth Gefn	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Gwariant Net	143,083	-1,879	141,204	2,355	143,559	5,005	148,564	2,464	151,027	
33 Cyfanswm Grantiau	-80,959	3,857	-77,102	2,467	-74,635	2,239	-72,396	2,172	-70,224	
34 Praesept	-62,124	-1,978	-64,102	-1,282	-65,384	-1,308	-66,692	-1,334	-68,026	
Ariannu	-143,083	1,879	-141,204	1,185	-140,019	931	-139,088	838	-138,250	
Balans Blynnyddol	0	0	0	3,540	3,540	5,936	5,936	3,302	3,303	
Toriadau Cronnus i'w Gwneud			4,325		7,865		13,801		17,103	

Atodiad C

Rhaglen Gyfalaf 2013-14 i 2016-17

		2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	
Ref	Disgrifiad	Cyllideb Ddiwyg.	Drafft	Drafft	Drafft	Cyfansm
		£000	£000	£000	£000	£000
	<u>Rhaglen yr Ystad</u>					
1	Dargadwadau, Ymgynghoriad ac Ansawdd y Gwasanaeth	9	0	0	0	9
2	Gwelliannau Cynladwyedd	228	100	100	100	528
3	Swyddfeydd Porthaethwy	0	0	100	0	100
4	Uwchraddio Dalfeydd	21	0	0	0	21
5	Canolfan Reoli	25	0	0	0	25
6	Gorsaf Heddlu Newydd Llangefni	1,800	0	0	0	1,800
7	Symud Gorsaf y Waun	70	0	0	0	70
8	Symud Gorsaf Cefnmawr	50	0	0	0	50
9	Cyfleuster newydd Wrecsam	1,675	4,322	5,000	5,667	16,664
10	Symud gorsaf Saltney	0	50	0	0	50
11	Symud gorsaf Bwcle	55	0	0	0	55
12	Symud gorsaf Glannau Dyfrdwy	0	0	250	0	250
13	Symud gorsaf y Flint	400	0	0	0	400
14	Symud gorsaf Llangollen	25	390	0	0	415
15	Symud adrannau i Lanelwy	22	0	0	0	22
16	Safle TPC Prestatyn	53	0	0	0	53
17	Symud/Adeiladu gorsaf newydd yn Llandudno	50	2,700	0	0	2,750
18	Symud gorsaf Conwy	0	175	0	0	175
19	Symud gorsaf Bethesda	50	0	0	0	50
20	Symud gorsaf Pwllheli	100	850	0	0	950
21	Symud gorsaf Nefyn	0	100	0	0	100
22	Symud gorsaf Tywyn	0	0	100	0	100
23	Uwchraddio gorsaf Caergybi	0	50	0	0	50
24	Cyfleusterau Hyfforddi'r Ganolfan Drylliau Tanio	155	0	0	0	155
25	Gwaith Diogelwch Glannau Dyfrdwy	20	0	0	0	20
26	Gwaith ar generadur gorsaf Dolgellau	80	0	0	0	80
27	Diogelwch Safle'r Hofrennydd	75	0	0	0	75
28	Llawr Dalfa'r Wyddgrug	16	0	0	0	16
29	To gorsaf Llanrwst	40	0	0	0	40
30	Ailwampio'r cantîn (yn amodol ar gostau busnes)	0	90	0	0	90
31	Diogelwch y Safle Drylliau Tanio	0	250	0	0	250
32	Canolfan y Gynghrair Drylliau Tanio	0	212	0	0	212
	Cyfanswm Gwaith Adeiladu	5,019	9,289	5,550	5,767	25,625

		2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	
Cyf	Disgrifiad	Cyllideb Ddiwyg.	Drafft	Drafft	Drafft	Cyfansm
		£000	£000	£000	£000	£000
	Cerbydau ac Offer Arall					
33	Rhaglen prynu / adnewyddu cerbydau	1,851	1,500	1,500	1,500	6,351
34	Cerbydau at Ddefnydd Personol (ffynhonnell refeniw)	40	0	0	0	40
35	Cerbydau PSU	563	0	0	0	563
36	Hofrennydd Newydd (Dargadw)	18	0	0	0	18
37	ANPR	248	0	0	0	248
	Cyfanswm Cerbydau ac Offer Arall	2,720	1,500	1,500	1,500	7,220
	Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu					
38	Adnewyddu Cyfrifiaduron (Rhaglen Adnewyddu)	300	300	300	300	1,200
39	Gosod Rhwydwaith (Rhaglen Adnewyddu)	0	0	500	500	1,000
40	Uwchraddio a Chaledwedd CAD (Rhag. Adnewyddu)	80	0	500	0	580
41	Uwchraddio a Chaledwedd RMS (Rhag Adnewyddu)	450	0	0	0	450
42	Gweinyddwyr Systemau Busnes (Rhag.Adnewyddu)	0	345	0	420	765
43	Amgylchedd IMPACT/Cyfrinachol (Rhag. Adnewyddu)	21	0	0	0	21
44	Caledwedd Holmes II ((Rhag.Adnewyddu)	0	114	0	0	114
45	Prosiect Digididdio Cyfiawnder Troseddol	290	610	0	0	900
46	Diogelwch a DDA ystafelloedd cyfnewid	0	300	0	0	300
47	System rheoli'r ganolfan alwadau	0	650	0	0	650
48	Technoleg tracio cerbydau	50	750	0	0	800
49	Data symudol – 300 dyfais	0	0	800	0	800
50	Dyfeisiadau aml swyddogaeth	100	0	0	0	100
51	Disodli Systemau Diogel	0	70	0	0	70
	Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	1,291	3,139	2,100	1,220	7,750
	Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	9,030	13,928	9,150	8,487	40,595
	Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf					
52	Grantiau Cyfalaf Cyffredinol y Swyddfa Gartref	2,682	1,100	1,100	1,100	5,982
53	Cyfraniad Refeniw	1,142	818	410	310	2,680
54	Cronfeydd a glustnodwyd	3,752	6,087	3,839	2,616	16,294
55	Derbynebaw cyfalaf	0	1,896	1,504	2,244	5,644
56	Benthycia ar gyfer Ystadau	0	3,268	997	997	5,262
57	Benthycia ar gyfer Rhaglenni Adnewyddu	1,454	759	1,300	1,220	4,733
	Cyfanswm Nawdd	9,030	13,928	9,150	8,487	40,595

Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Drafft Ymgynghorol – Amcanion Heddlu a Throsedd Diwygiedig

Cyfnod Ymgynghori: 13 Ionawr 2014 i 3 Mawrth 2014

Cyflwynwch unrhyw adborth drwy www.northwales-pcc.gov.uk neu anfonwch neges e-bost at opcc@nthwales.pnn.police.uk neu gallwch ysgrifennu at Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Glan y Don, Bae Colwyn, LL29 8AW.

Cyflwyniad

Dyma'r fersiwn ddrafft o'r adolygiadau arfaethedig i'r Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer gogledd Cymru. Mae'r adolygiadau hyn yn adeiladu ar y sylfaen a grëwyd gan y [cynllun](#) cyntaf a'i fwriad yw casglu safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a'r [Panel Heddlu a Throsedd](#) am gyfeiriad arfaethedig y cynllun diwygiedig.

Cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft hwn rhwng 13 Ionawr a 3 Mawrth 2014. Mae fersiwn ddrafft y cynllun yn canolbwyntio ar y newidiadau arfaethedig i'r amcanion heddlu a throsedd. Bydd y cynllun diwygiedig, a fydd yn ystyried y safbwyntiau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn cael eu cyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd er ei ystyriaeth ar 17 Mawrth 2014. Bydd modd i'r cyhoedd gyflwyno eu sylwadau drwy fy ngwefan www.northwales-pcc.gov.uk neu drwy anfon e-bost at opcc@nthwales.pnn.police.uk neu gellir ysgrifennu at Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Glan y Don, Bae Colwyn, LL29 8AW.

Mae gogledd Cymru yn un o'r mannau diogelaf i fyw, i weithio ac i ymweld ag ef a gweld hynny'n parhau yw fy mlaenoriaeth. Drwy ddal ati i leihau trosedd a thrwy weithio tuag at gyflawni'r nodau a'r weledigaeth a ddisgrifir yn yr adolygiad hwn, rwy'n hyderus y bydd yn parhau. Fodd bynnag, o ystyried nifer y toriadau sydd eisoes wedi'u gwneud i gyllideb yr Heddlu a'r arbedion sydd angen dod o hyd iddynt o hyd, ni ddylid tanamcangyfrif lefel yr her. Serch hynny fy mwriad yw sicrhau bod gogledd Cymru yn parhau yn lle diogel drwy ddarparu fy amcanion a pharhau i leihau trosedd. Yn y cynllun diwygiedig hwn byddaf hefyd yn tynnu sylw at feysydd penodol o drosedd a allai fod yn cael eu tan-riportio ar hyn o bryd ac a allai weld cynnydd o ganlyniad i weithredu gan Heddlu Gogledd Cymru. Byddaf yn dargyfeirio adnoddau er mwyn mynd i'r afael â nhw mewn modd mwy cadarn o gofio'r bygythiad mae ein cymunedau'n ei wynebu o ganlyniad.

Y canlyniadau yr oeddwn am eu cyflenwi yn fy nghynllun cyntaf oedd diogelwch yn y cartref, bod yn saff mewn mannau cyhoeddus a phlismaon gweladwy a hygyrch, a'r rhain yw elfennau pwysigaf y weledigaeth o hyd. Er mwyn sicrhau'r pethau hyn ar gyfer gogledd Cymru rydw i wedi sefydlu pedwar amcan heddlu a throsedd newydd sef:

- Atal trosedd
- Darparu ymateb priodol
- Lleihau niwed a'r risg o niwed
- Adeiladu partneriaethau effeithiol

Bwriedir yr amcanion i fod yn glir ac i roi i Heddlu Gogledd Cymru, ei staff a'i bartneriaid well ffocws a rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu ar y cyd â'n partneriaid. Mae'r rhain yn dod yn lle'r amcanion heddlu a throsedd a sefydlwyd yn y cynllun heddlu a throsedd cyntaf. Byddant yn cael eu cefnogi gan gyfres o fesurau a fydd yn fy ngalluogi i asesu perfformiad a gwella'r ddarpariaeth i'r cyhoedd.

Bydd darparu'r amcanion heddlu a throsedd diwygiedig arfaethedig yn heriol yn yr hinsawdd ariannol presennol. Mae'n bwysig gosod y cyd-destun i bobl gogledd Cymru a nodi'n glir, erbyn diwedd 2018 rhagwelir y bydd bron i chwarter cyllideb yr heddlu (22%) wedi'i thorri ers 2010, er gwaethaf y cynnydd yn nhreth y cyngor. Mae mwy o wybodaeth am gyllideb yr heddlu i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r cynigion praesept a fydd yn cael eu darparu i'r Panel ar 20 Ionawr.

Ochr yn ochr â'r cynllun bydd cynllun gweithredu yn amlinellu sut mae'r Prif Gwnstabl yn bwriadu darparu'r amcanion. Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru er mwyn darparu gwell aliniad strategol gyda Chynllun Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan y Bwrdd ar hyn o bryd. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cynnwys fel atodiadau yn y fersiwn ddiwygiedig sydd i'w hystyried gan y Panel ar 17 Mawrth.

Winston Roddick CB QC

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

13.01.14

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Diogelwch yn y Cartref; Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus: Plismona gweladwy a hygyrch.....	5
Darparu ar gyfer gogledd Cymru	6
Yr Amcanion Heddlu a Throsedd	7
Atal Trosedd.....	7
Darparu ymateb priodol	8
Lleihau niwed a’r risg o niwed	9
Adeiladu partneriaethau effeithiol	11

Diogelwch yn y cartref; Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus; Plismona gweladwy a hygyrch

Diogelwch yn y Cartref

Mae hyn yn bwysig i bawb. Teimlo'n ddiogel, yn saff, heb deimlo dan fygythiad gan drosedd a throseddwr a heb deimlo ofn o ba bynnag ffynhonnell.

Byddaf yn gweithio tuag at wella diogelwch pobl yn y cartref, a'u hymdeimlad o fod yn ddiogel yn y cartref, a thuag at leihau trosedd sy'n seiliedig ar y dioddefwr.

Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus

Mae angen i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â gogledd Cymru deimlo'n saff mewn mannau cyhoeddus yn ystod y dydd a'r nos.

Byddaf yn gweithio tuag at wella diogelwch pobl mewn mannau cyhoeddus a'u hymdeimlad o fod yn ddiogel mewn mannau cyhoeddus, a thuag at leihau trosedd sy'n seiliedig ar y dioddefwr.

Plismona Gweladwy a Hygyrch

Does dim amheuaeth bod presenoldeb gweladwy'r heddlu yn atal trosedd, yn tawelu meddyliau'r cyhoedd ac yn atgyfnerthu cysylltiadau â'r heddlu. Credaf nad oes unrhyw beth yn atal trosedd mor effeithiol â phlismona mwy gweladwy a'r hyn sy'n allweddol er mwyn sicrhau bod cymunedau'n teimlo'n ddiogel yw gwybod fod yr heddlu yn sefydliad hygyrch, a fydd ar gael pan fydd ei angen fwyaf.

Byddaf yn gweithio tuag at ddatblygu heddlu mwy gweladwy a hygyrch. Wrth gwrs, ni fydd hon yn dasg hawdd o gofio lefel yr arbedion sy'n rhaid eu gwneud.

Darparu ar gyfer Gogledd Cymru

Er mwyn darparu ar gyfer gogledd Cymru rydw i wedi sefydlu pedwar amcan newydd ar gyfer yr heddlu a'n partneriaid yn y sectorau diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol, sef:

- Atal trosedd
- Darparu ymateb priodol
- Lleihau niwed a'r risg o niwed
- Adeiladu partneriaethau effeithiol

Mae'r rhain yn dod yn lle'r amcanion a nodwyd yn y cynllun heddlu a throedd cyntaf. Bydd y rhain yn cael eu cefnogi gan gyfres o fesurau a fydd yn fy ngalluogi i asesu perfformiad yr heddlu.

Bydd cyflwyniad y mesurau hyn yn gwella fy ngallu i ddarparu plismona atebol ar gyfer gogledd Cymru. Yn gyffredinol, rydw i dal yn bwriadu gweithio tuag at leihau trosedd a lleihau trosedd seiliedig ar ddioddefwyr fydd yr unig darged sefydledig o fewn y cynllun heddlu a throedd o hyd. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod fod rhai troseddau wedi eu tan-riportio gan y cyhoedd a bod troseddau sy'n dechrau dod i'r amlwg yr ydym yn dechrau cael gwell dealltwriaeth ohonynt yn ein cymunedau. Felly, bydd cyflwyniad y mesurau yn rhoi gallu ehangach i mi ymateb i faterion sy'n dechrau dod i'r amlwg ac i asesu'r ddarpariaeth mewn modd mwy cynhwysfawr. Yn ystod yr ymgynghoriad, byddaf yn parhau i ddatblygu a mireinio'r mesurau drafft.

Wrth fonitro'r mesurau hyn byddaf yn canolbwyntio'n benodol ar dueddiadau sy'n awgrymu bod perfformiad 'normal' neu berfformiad a ragwelwyd neu berfformiad hanesyddol wedi newid yn sylweddol. Byddaf yn parhau i gael adroddiadau annibynnol gan Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHM) a byddaf yn eu comisiynu os teimlaf fod angen gwneud hynny.

Byddaf yn parhau i graffu ar ddarpariaeth y cynllun drwy'r Bwrdd Gweithredu Strategol. Byddaf hefyd yn parhau i weithio gyda'r Panel Heddlu a Throedd drwy ofyn am ei safbwyntiau ar faterion allweddol, ei ddarparu ag adroddiadau rheolaidd o'm gweithgareddau a chyflawni gofynion statudol eraill gyda'r panel.

Yr Amcanion Heddlu a Throsedd

Atal Trosedd

Atal trosedd rhag digwydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o amddiffyn ein cymunedau a sicrhau bod pobl yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn saff mewn mannau cyhoeddus. Er mwyn darparu'r amcan hwn rwy'n disgwyl:

- I'r Prif Gwnstabl barhau i ddarparu Cynllun Lleihau Trosedd yr Heddlu ac i weld lleihad mewn troseddau seiliedig ar ddioddefwyr fel busnes craidd Heddlu Gogledd Cymru.
- Parhau i ddarparu mesurau ataliol sy'n atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau plismona gweladwy, cynnal cyfleusterau heddlu hygyrch a darpariaeth CCTV partneriaid.
- Adnabod y ffactorau sy'n gallu arwain at risg y bydd unigolion a grwpiau yn dioddef trosedd a darparu ymyriadau targedig gyda phartneriaid.
- Taclo'r problemau a achosir gan grwpiau troseddau trefnedig yn ein cymunedau, yn ogystal â chydweithio â heddluoedd eraill er mwyn taclo'r grwpiau troseddu trefnedig eu hunain.
- Gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda'r gwasanaeth prawf, er mwyn lleihau aildroseddu drwy sicrhau cyfiawnder effeithiol a mynd i'r afael â'r ffactorau hynny sy'n gallu arwain at, a gwaethygu ymddygiad troseddol.
- Cydweithio â phartneriaid ac yn enwedig y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hatal rhag troseddu ac aildroseddu gyda'r nod yn y pen draw o'u hatal rhag bod yn droseddwyr pan fyddant yn oedolion.
- Gwaith partneriaeth, yn enwedig gyda'r awdurdodau lleol, er mwyn datrys problemau o fewn cymunedau gan gynnwys datrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn eu hatal rhag gwaethygu.
- Gwaith partneriaeth er mwyn adnabod pobl neu deuluoedd sy'n cael effaith anghymesur ar wasanaethau cyhoeddus ac i bartneriaid weithio tuag at ddelfio â'u anghenion amrywiol er mwyn lleihau'r galw anghyfartal ar wasanaethau.

Byddaf hefyd yn ymgynghori â busnesau er mwyn dod o hyd i ffyrdd o'u cefnogi nhw i wella economi Gogledd Cymru.

Er mwyn dal yr heddlu yn atebol byddaf yn monitro:

- Lefel yr holl droseddau a gofnodir
- Y lefel o droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr
- Y lefel o droseddau wedi'u datrys, yn ôl math o drosedd
- Y lefel o ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'i gofnodi

Darparu ymateb priodol

Mae cyfrifoldeb ar yr heddlu a phartneriaid yn y sectorau cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol i ddarparu'r ymateb priodol i droseddau neu faterion diogelwch cyhoeddus. Er mwyn darparu'r amcan hwn, rwy'n disgwyl:

- I'r Prif Gwnstabl sicrhau bod yr Heddlu yn ymateb i argyfyngau plismona mewn modd amserol ac effeithiol.
- Darpariaeth y [Cod Ymddygiad i Ddioddefwyr](#) newydd a pharhau i ddatrys troseddau.
- Darpariaeth gwasanaeth heddlu y gall pobl gogledd Cymru ymddiried ynddo drwy ymddwyn yn foesol a gydag unplygrwydd.
- Darpariaeth y cynllun plismona cefn gwlad a sefydlwyd yn y cynllun heddlu a throedd cyntaf.
- Darpariaeth [Cynllun Iaith Gymraeg ar y Cyd](#) a'n [Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd](#).
- Adnabod ac asesu cyfleoedd i gydweithio â heddluoedd a phartneriaid lleol eraill er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth a/neu wella gwerth am arian.
- I'r Prif Gwnstabl, mewn cydweithrediad â heddluoedd ac asiantaethau eraill, fod â'r gallu lleol priodol i ddelio â bygythiadau a nodir o fewn y [Gofyniad Plismona Strategol](#) (SPR). Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi gosod y disgwyliad ar gyfer ymateb i fygythiadau cenedlaethol i ddiogelwch, diogelwch cyhoeddus a hyder y cyhoedd o fewn yr SPR sef: terfysgaeth; argyfyngau sifil; troseddau trefnedig a nodir yn yr Asesiad Risg Diogelwch Cyhoeddus; trefn gyhoeddus na ellir ei rheoli gan un heddlu ar ei ben ei hun; digwyddiadau seiber ar raddfa fawr; digwyddiadau sylweddol sydd â goblygiadau cenedlaethol.

Byddaf yn parhau i wrando ar safbwyntiau ein cymunedau am y gwasanaeth plismona y maent yn ei dderbyn ac yn ystyried eu safbwyntiau ar lefel strategol. Rwy'n disgwyl i'r heddlu ymgysylltu â chymunedau'n uniongyrchol ar faterion gweithredol. Er mwyn cefnogi'r heddlu i ddarparu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion y gwahanol gymunedau yng ngogledd Cymru, byddaf yn adrodd yn ôl i'r Prif Gwnstabl ar safbwyntiau'r cymunedau.

Er mwyn dal yr heddlu yn atebol byddaf yn monitro:

- Cyfartaledd amseroedd ymateb yr heddlu i argyfyngau
- Y nifer o alwadau difrys a nodir fel 'galwadau wedi'u gadael'
- Yr adborth a dderbynnir drwy arolygon dioddefwyr

Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae lleihau niwed a'r risg o niwed i'n cymunedau yn hynod o bwysig. Mae'r mathau o droseddau sydd wedi'u cynnwys o fewn yr amcan hwn megis trais domestig yn aml iawn yn digwydd tu ôl i ddrysau caeedig ac yn aml iawn mae'r dioddefwyr yn ddiamddiffyn a chanddynt ofn y canlyniadau o riportio digwyddiadau i'r heddlu. Golyga natur y ddarpariaeth blismona sydd ei hangen er mwyn bodloni rhai o'r meysydd trosedd a nodir isod fy mod yn disgwyl i'r Prif Gwnstabl fod â'r gallu i gydbwysu'r disgwyliad yr ydw i wedi'i osod ar gyfer plismona gweladwy gyda'r dulliau a weithredir a'r adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn ei alluogi i fynd i'r afael â'r troseddau hynny sy'n achosi niwed difrifol. Er mwyn darparu'r amcan hwn, rwy'n disgwyl:

- I'r Prif Gwnstabl ddarparu ymatebion effeithiol i achosion o gamdriniaeth ddomestig a byddaf yn cydweithio â'r Prif Gwnstabl a phartneriaid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cefnogi priodol ar gyfer dioddefwyr trais domestig yn cael eu darparu ledled Gogledd Cymru.
- Parhau i adeiladu ar y cynnydd o ran ymchwilio i, ac adeiladu hyder dioddefwyr yn ymateb yr heddlu i adroddiadau o droseddau rhyw. Bydd hyn yn cynnwys cynnal y Tîm Amethyst sy'n ymchwilio i achosion o drais rhywiol, tîm a sefydlwyd yn y cynllun blaenorol.
- Parhau i ddatblygu gallu rhagweithiol er mwyn adnabod y rhai hynny sy'n ecsbloetio plant yn rhywiol gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael mynediad i ddelweddau anwedus o blant drwy'r rhyngrwyd a chefnogi gwaith aml-asiantaeth er mwyn amddiffyn plant sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd mewn perygl.
- Tarfu ar y cadwyni cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon (fel rhan o'r gwaith cyffredinol yn erbyn troseddau trefnedig) er mwyn cyfrannu tuag at atal a rheoli'r effaith y mae camddefnyddio sylweddau'n ei gael ar ein cymunedau.
- Gwaith partneriaeth, yn enwedig gyda'r gwasanaeth iechyd a'r awdurdodau lleol, er mwyn darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau er mwyn lleihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol. Byddaf yn parhau i ariannu'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau sy'n cefnogi troseddwyr.
- Gwaith partneriaeth, yn enwedig drwy'r Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Aml-asiantaeth (MAPPA) er mwyn rheoli ac ailsefydlu troseddwyr peryglus gan gynnwys y rhai hynny ar y gofrestr troseddwyr rhyw.
- Gwaith partneriaeth, yn enwedig gydag awdurdodau lleol a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, er mwyn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd, drwy adnabod ffactorau risg a chanolbwyntio ar weithgareddau atal.

Byddaf hefyd yn datblygu fy mwriadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr yn y dyfodol er mwyn darparu dioddefwyr trosedd â'r gwasanaethau cefnogi priodol.

Er mwyn dal yr heddlu yn atebol byddaf yn monitro:

- Nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd
- Lefelau aildroseddu

Adeiladu Partneriaethau Effeithiol

Nid dim ond yr Heddlu sy'n gweithio tuag at atal trosedd, darparu ymatebion priodol a lleihau niwed a'r risg o niwed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi effeithiau a gwahaniaethau hirdymor i gael eu gwneud i'n cymunedau. Byddaf yn gweithio gyda phartneriaid drwy Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, y Bwrdd Cymunedau Diogelach, Bwrdd Cynllunio Ardal – Camddefnyddio Sylweddau a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol er mwyn adnabod ffyrdd o gydweithio'n fwy effeithiol yn yr amseroedd ariannol heriol hyn. Bydd hyn yn fy nghynorthwyo gyda fy nghyfrifoldebau ehangach i wella diogelwch cymunedol a gwella'r ddarpariaeth o gyfiawnder troseddol yn ein hardal ac yn fy ngalluogi i sicrhau bod yr holl asiantaethau a chyrff perthnasol yn cyflawni eu dyletswyddau yn y cyswllt hwn.